

ECO'r Wyddfa

Rhif: 435
Medi 2015
Pris: 70c



Twitter Ads yn gwrthod hysbysebu Cymraeg.



Sion Evans, Rheolwr Marchnata (de) ac Emyr Jones, Rheolwr Busnes Ceir Cymru.

Cafodd cwmni Ceir Cymru, Bethel, eu gwahardd rhag defnyddio Twitter Ads oherwydd eu bod yn defnyddio'r Gymraeg. Roedd Sion Evans, Rheolwr Marchnata Ceir Cymru yn awyddus i ddefnyddio'r cyfrwng i gyrraedd rhai miloedd o gwsmeriaid posib, ond fe'i gwrthodwyd oherwydd nad oedd yn defnyddio yr hyn mae'r cwmni yn ei alw'n "supported languages". Yn ôl Twitter Ads, rhaid i o leiaf 50% o iaith yr hysbyseb fod mewn Afrikaans, Bahasa (iaith Indonesia), Saesneg, Sbaeneg, Ffrangeg, Eidaleg, Isalmaeneg, Almaeneg, Hebraeg, Portiwgaeg, Japanese, neu un o bedair iaith Sgandinafia.

Meddai Sion, "Mae'r cwmni Americanaidd hwn yn gwrthod yr hawl sylfaenol i ni ddefnyddio ein hiaith i farchnata ein busnes."

Is gwmni o Twitter yw Twitter Ads, a sefydlwyd rhyw dair blynedd yn ôl, ac sy'n cynhyrchu elw o rai biliynau o bunnoedd i'r cwmni. Gellir prynu hawl hysbysebu dyddiol, yn amrywio o bunt y diwrnod hyd hanner canpunt. Mae'r taliadau yn rhoi hawl i hysbysebion gael eu rhannu i rai miloedd o gwsmeriaid o fewn codau post dewisiedig. Mae £13 y dydd er enghraifft yn anfon

hysbyseb at 20,000 o gwsmeriaid o fewn ardal arbennig.

Roedd Ceir Cymru yn hynod awyddus i ddefnyddio'r dull diweddaraf hwn o gysylltu efo cwsmeriaid posib o fewn eu dalgylch a thu hwnt. Meddai Sion, "Mae'n ddull newydd a blaengar o hysbysebu, ac fe fyddai'n adnodd hynod effeithiol i ni farchnata ein busnes."

Ond mae'n ymddangos nad felly y bydd oni bai fod y cwmni yn defnyddio un o'r ieithoedd uchod. Mae amcangyfrifon yn awgrymu fod dros 50,000 o bobl yn defnyddio Twitter yn Gymraeg. Felly, mae penderfyniad Twitter Ads yn golygu na all Ceir Cymru (nac unrhyw gwmni Cymraeg arall sy'n dymuno marchnata eu cynnyrch yn Gymraeg), gyrraedd y nifer hwn o gwsmeriaid.

Yr hyn sy'n eironig yw mai cyfeiriad Twitter Ads yn San Francisco yw 1355 Market Street. Cyfeiriad hollol anaddas i gwmni sy'n gwrthod yr hawl i gwmniau eraill farchnata yn eu mamiaith.

Roedd yr ohebiaeth rhwng Ceir Cymru a Twitter Ads yn parhau fel roedd yr "Eco" yn mynd i'r wasg.

ECO'r Wyddfa

**RHIF 435
Medi 2015**
Argraffwyd gan
Wasg Dwyfor
Penygroes 01286 881911

SWYDDOGION A GOHEBWYR

**Straeon ac erthyglau
ar e-bost i
Dafydd Whiteside Thomas
Bron y Nant, Llanrug
01286 673515
ecorwyddfa@gmail.com**

**CADEIRYDD
Y PWYLLGOR GWAITH**
Geraint Elis

GOLYGYDD CHWARAEON
Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115

FFOTOGRAFFWR
Gwynnaf Hughes, Hafan,
Llanrug (672221)
glasgoed@hotmail.com

TREFNYDD HYSBYSEBION
Rhian Elin George, Swn yr Engan,
Brynrefail (01286) 872306
ebost hysbysebioneco@yahoo.co.uk

TREFNYDD ARIANNOL
Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (01286 674839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST
Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (01286 674839)

TREFNYDD BWNDELU
Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir,
Dinorwig (870292)

GOHEBWYR PENTREFI
DEINIOLEN: Nia Gruffudd (872133)

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(01248) 670726

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts,
Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Rhiannon Roberts,
Cefn Rhos Isaf, Penrhos.
rhiannonmai@btinternet.com

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650799)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872275)

DINORWIG: Marian Jones, Minallt,
7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion
Roberts, Swŷn-y-Gwynt (870740)

LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn
Moelyn (675384)

NANT PERIS: Kate Pritchard (872331)
neu econantperis@hotmail.com

PENISARWAUN:
ecopenisarwaun@hotmail.co.uk

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts,
Pantafon, Waunfawr (650570)

gosodwyd gan

grid

dylunio graffeg
07766956673

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO 2015

Rhifyn	Copi i law	Bwndelu	Ble
Hydref	Medi 20	Hydref 2	Penisarwaun
Tachwedd	Hydref 18	Hydref 30	Llanberis
Rhagfyr	Tachwedd 15	Tachwedd 27	Caeathro
Nadolig/Ionawr	Rhagfyr 6	Rhagfyr 18	Llanrug

LLYTHYRAU

Yr Eglwys Newydd, CAERDYDD
Mehefin 2015

Eisteddfod y Cymoedd

Annwyl Gyd-eisteddfodwyr,
Eleni byddwn yn cynnal Eisteddfod y Cymoedd am y nawfed
flwyddyn yn olynol.

Cynhelir yr eisteddfod yn Ysgol Lewis i Ferched, Ystrad Mynach
eleni eto. A'r dyddiad yw nos Wener, 16eg o Hydref gan ddechrau
am 5.00 o'r gloch.

Y beirniaid eleni yw

Osian Rowlands ac Aled John (Cerddoriaeth)

Ifan a Margaret Roberts (Llefaru a Llenyddiaeth Ieuencid)

Llion Roberts (Llenyddiaeth Agored)

Marie Evans (Dawns)

Gwyneth a Gwyn Davies (Ffotograffiaeth).

Y cyfeilydd fydd Bethan Phillips.

Byddai Ysgrifenyddion yr Eisteddfod, yn barod iawn i anfon mwy
o fanylion atoch.

Cysylltwch â Gwilym ac Eirlys Thomas, Pen Caer, 73 Heol Pengam,
Ystrad Mynach, Hengoed.CF82 8AB neu ar 01443812820 neu ar
gwilymt@sky.com

Mae croeso mawr yn eich disgwyl chi yn Ystrad Mynach nos
Wener, 16eg o Hydref.

Yn gywir,

R. Alun Evans, Cadeirydd Eisteddfod y Cymoedd

CYLCH LLENYDDOL CAERNARFON A GWYRFAI

Cynhelir cyfarfod o Gylch Llenyddol Caernarfon a Gwyrfaï yn
Ystafell Gymuned Llyfrgell Caernarfon am 7.30 o'r gloch ar nos
Fawrth, 15ed Medi a bydd y Prifardd Ieuan Wyn yn trafod ei
waith. Estynnir croeso cynnes i bawb.

Ydych chi wedi meddwl am ymaelodi â'r Cylch Llenyddol? Mae'n
cynnig cyfle gwyh i wrando ar siaradwyr o safon aruchel yn
trafod gwahanol agweddau o farddoniaeth, rhyddiaith a'r ddrama.
Mae'r siaradwyr yn cael eu dewis o blith awduron cydnabyddedig
sy'n trin a thrafod eu gwaith ac ysgolheigion blaenllaw sy'n
dadansoddi ac yn taflu goleuni ar weithiau yr awduron mawr.
Nid darlithoedd sych a diflas mohonynt o gwbl ond yn hytrach
mae pob darlith yn cynnig awr a mwy o drafodaeth sylweddol a
difyr sy'n rhoi'r cyfle i aelodau'r gynulleidfa holi'r siaradwr ac fel
arfer testun y sgwrs ar y ffordd adref yw rhagoriaethau'r cyfarfod.
Os ydych yn dilyn cwrs lefel 'A' mewn Llenyddiaeth buasai'n
gyfle i chi gyfarfod a sgwrsio ag awduron ac hefyd ehangu eich
ymwybyddiaeth o lenyddiaeth Gymraeg ac, yn achlysurol, Eingl-
Gymreig. Yn olaf, ar ddiwedd pob cyfarfod mae cyfle i sgwrsio
a chymdeithasu dros baned dda o de. Os nad ydych yn teimlo
fel ymaelodi am dymor cyfan mae croeso i chi ymuno a'r Cylch
Llenyddol ar gyfer un cyfarfod unigol."

Apel Seindorf Arian Deiniolen

Pencampwriaeth Bandiau Pres Prydain Fawr, Cheltenham 2015
Pleser o'r mwyaf i'r Band yw cael cynrychioli Cymru yn y
gystadleuaeth uchod eleni. Mae hyn yn ffrainc fawr i fand o bentref
mor fach â Deiniolen ond mae hyn yn rhoi problem i ni hefyd, sef
y gost ariannol mae yn ei olygu.

Dymunwn ddiolch i'r rhai sydd eisoes wedi ymateb i'r apel yn
rhifyn diwethaf "Eco'r Wyddfa", ond nid yw'n rhy hwyr i eraill
gyfrannu. Os oes unrhyw un yn teimlo y buasent yn hoffi cyfrannu
i'n helpu tuag at y costau, byddwn yn hynod o falch o dderbyn
eich cyfraniad, boed yn fawr neu yn fach.

Ar ran y band

Meirion Jones (Ysg) - Rhif ffôn: 01286 870452

RHODDION

**Ariennir yn rhannol gan
Lywodraeth Cymru**

£20: Iwan a Dylan
Roberts er cof am Mair
Roberts, Cilygors,
Llanrug; Margaret ac
Elliot Jones, Lôn yr
Wylan, Llanfairpwll, Ynys
Môn

£10: Di-enw Llanrug;
Mr a Mrs Jones, 5 Stad
Eryri,Bethel; Evie
Wyn Jones, 3 Bryn
Tirion, Penisarwaen;
Iolo Llywelyn, Plas
Garnedd, Bangor; Liz
Roberts, Bangor, er cof
am ei rhieni, Bob a Hetty
Hughes, 7 Stryd Siarlot,
Llanberis gynt; Maureen,
32 Stryd Newydd,
Deiniolen; Er cof am
Eleanor May Williams,
41 Rhydfadog, Deiniolen,
gan y teulu; Mrs Megan
Morris, Plas Garnedd
(Minffordd gynt).

£5: Haf Thomas,
Buarthau, Llanrug; Teulu
Eryri Wen, Stad Bod
Hyfryd, Waunfawr.

£3: Di-enw Llanrug.

KEVIN DAVIES
Plastrwr Profiadol

Pob math o waith
cynnal a chadw
- mewnol ac allanol
Amcan-bris am ddim

Ffôn: 01286 650655
Ffôn symudol:
07918733510

e-bost: kevindavies6287@gmail.com

Y TAIR ENID



Cynhaliwyd dathliad arbennig yn Llanberis ar 27ain o Fehefin pan gyrhaeddodd ENID , trên hynaf Rheilffordd yr Wyddfa, ei phenblwydd yn 120 oed.

I gyd-fynd a'r achlysur gwahoddwyd dwy Enid o Lanberis i ymuno yn y dathlu. Torrwyd rhuban arbennig gan Enid Roberts, pedair oed, Mur Mawr yng nghwmni, Mrs Enid Jones, Ffordd Capel Coch.

Ganwyd yr Enid hynaf yng ngwaith trenau rac a phiniwn Winterthur yn y Swistir yn ystod misoedd cynnar y flwyddyn 1895. Cludwyd hi ar gledrau i Lanberis ar draws Ewrop i ddocio Llundain ac yna ar drên yr holl ffordd i hen orsaf y lein fawr yn Llanberis. Cwblhawyd y daith pan lusgwyd hi ar gledrau, a osodwyd dros dro, gan geffylau gwedd hyd at orsaf Rheilffordd yr Wyddfa. Pan gyrhaeddodd y fro doedd ganddi

ddim enw o unrhyw fath dim ond plât a rhif i gofnodi ei man geni sef: 'Swiss Locomotive & Engine Works Winterthur No 924 - 1895'.

Fe roddwyd enw go iawn iddi wedi iddi gyrraedd Llanberis sef ENID ar ôl merch Arglwydd y Faenol. Dyma'r un Enid a gafodd y fraint, pan yn eneth naw oed, o dorri'r dywarchen gyntaf i ddathlu cychwyn gwaith codi'r rheilffordd ar 15fed o Ragfyr 1894. Daeth torf o dros dair mil i gyfarch Enid y Faenol yn 1895 yn ogystal â seindorf y pentref a choronwyd y cwbl gyda saethu nifer o fagnelau oddi ar rai o greigiau'r fro. Ni ddaeth cymaint i'r dathliad yma yn 2015 ond roedd gwahodd y ddwy Enid o Lanberis yn achlysur i'w gofio ac yr un mor bwysig a diolchwn i Reilffordd yr Wyddfa am eu caredigrwydd ac am wahodd genod y pentref i gymryd rhan mewn achlysur bythgofiadwy.

Yn ystod y mis aeth heibio

- Bu pentref Llanberis yn dathlu penblwydd Ras yr Wyddfa yn ddeugain oed, gyda digwyddiadau gwahanol bob nos o'r wythnos yn arwain at y ras ei hun. Byddai wedi bod yn braf cael cyrraedd y penllanw gyda rhedwr lleol yn ennill, ond nid felly. Eidalwr aeth a hi, ac o gofio cysylltiad agos yr Eidalwyr efo'r ras, mae'n debyg fod hynny wedi plesio'r trefnwyr.

- Daeth nifer go dda o lwyddiannau i'r fro yn Eisteddfod Genedlaethol Maldwyn a'r Gororau (gweler tudalen 20). Gallwn ymfalchio yn y ffaith fod cymaint o ieuenctid ac oedolion galluog yn cael siawns i ddangos eu dawn yn genedlaethol. Ond rhaid peidio ac anghofio chwaith y rhai hynny sy'n gweithio'n ddiwyd yn y cefndir; yn athrawon a hyfforddwyr sy'n rhoi o'u hamser i feithrin a hybu doniau lleol. Hebddynt hwy ni fyddai llwyddiant.

- Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi rhoi trwydded i'r cwmni sydd am ddatblygu Cynllun Trydan-Dwr yng Nglynrhonwy i dynnu dwr allan o Lyn Padarn. Mae'r cais cynllunio am ddyblu maint cynhyrchu'r cynllun yn cael ei gyflwyno, ac ymae'r pryderon a'r gwrthwynebiadau'n parhau. Gweler datganiad ar dudalen 19 gan y grwp Pryderu am Glynrhonwy.

Yn ystod y mis sydd i ddod


- Ganol fis Medi bydd Cyngor Gwynedd yn cychwyn ymgynghoriad cyhoeddus ynglyn a'r toriadau ariannol sydd angen eu gwneud o Ebrill 2016. Dywedodd y Cynghorydd Dyfed Edwards, Arweinydd Cyngor Gwynedd, "Rydym yn benderfynol o barhau a'n gweledigaeth o selio'n strategaeth ariannol ar flaenoriaethau trigolion Gwynedd.... Dim ond ar ddiwedd yr ymgynghoriad hwn, ac wedi ystyried adborth y cyhoedd fydd holl Gynghorwyr Gwynedd yn dod i benderfyniad ar restr derfynol." I gymryd rhan rhaid cofrestru ar-lein : www.gwynedd.gov.uk/hergwynedd Teg gofyn faint mwy o doriadau y gall unrhyw awdurdod lleol ei ysgwyddo, ac a fydd unrhyw wasanaeth yn ddiogel rhag cyllell finiog Llywodraeth Llundain? A phe bai pawb yng Ngwynedd fydd yn cymryd rhan yn yr 'ymgynghoriad' yn dweud nad ydynt am weld unrhyw doriad o gwbl – be wedyn? A fydd Cynghorwyr Gwynedd yn ystyried y fath adborth? Ngwynedd fydd yn cymryd rhan yn yr 'ymgynghoriad' yn dweud nad ydynt am weld unrhyw doriad o gwbl – be wedyn? A fydd Cynghorwyr Gwynedd yn ystyried y fath adborth?

Gair gan y Golygydd.

Mae'r "Eco" bellach yn gyfrol o 32 tudalen. Mae costau ariannol yn golygu fod angen cadw at y nifer hwn o dudalennau neu ostwng i 28 tudalen. (Nid yw'n ymarferol nac o fantais ariannol i osod tudalennau rhydd dwy ochr o fewn y papur bellach). Y mis diwethaf derbyniwyd digon o ddeunydd i lenwi mwy na 32 tudalen, a bu'n rhaid gadael rhai eitemau allan. Dyna ran o waith y golygydd. Cyrhaeddodd eitemau eraill yn hynod o hwyr, a doedd dim posibl eu cynnwys. Sylwch, da chi ar y dyddiad cau! Mae yna reswm dros ei gynnwys ar dudalen 2 bob mis! Nid oes sicrwydd y bydd yr eitemau hwyr yn cael eu cynnwys yn y rhifyn sy'n dilyn 'chwaith, oherwydd yn aml iawn, maent wedi dyddio. Felly, os oes angen cynnwys eitemau o newyddion yn yr "Eco", gwnewch yn siwr eu bod yn cyrraedd mewn da bryd. Does dim sicrwydd y bydd lle iddynt yn y rhifyn dilynol.



dylunio graffeg/graphic design
darlunio/illustration
animeiddio/animation
graffeg arddangos/display graphics



- Cardiau Busnes
- Arwyddion
- Graffeg ar Gerbydau
- Gwefanau a mwy...

Llanrug **07766956673** gwyndaf@grid76.co.uk
gwasanaeth dwyieithog llawn/fully bilingual service



Ysgol Dolbadarn



Bu dosbarth Blwyddyn 3+4 yn dawel bawn Gwener am 30 munud er mwyn codi arian ar gyfer The Down's Syndrome Association- diolch i Nel am godi ein ymwybyddiaeth o'r achos hwn a da iawn i bawb am lwyddo!



Eisteddfod Ryngwladol Llangollen

Bu disgyblion o'r ysgol ar daith arbennig i Eisteddfod Llangollen er mwyn cael gwledd o ddawnsio a chanu o bob rhan o'r Byd. Mwynhaodd pawb y seremoni yn y pafiliwn yn fawr iawn- cafwyd perfformiad o ddawnsio Bollywood o India yn ogystal a pherfformiadau arbennig ar offerynnau pres o bob math.



Gwobrwyo Disgybl
Cafodd Cadi Sian Thomas ei gwobrwyo yn ystod y gwasnaeth ddiwedd tymor am ei hymroddiad i holl weithgareddau'r ysgol ac am safon ei gwaith ysgrifennu. Da iawn ti Cadi- dal ati i sgwennu!



Cwpan Y Byd yng Nghymru.

Dyma lun o ddisgyblion Ysgol Dolbadarn gyda Chwpan Rygbi Y Byd yng ngorsaf yr Wyddfa. Mae'r plant yn obeithiol iawn y bydd

Cymru yn llwyddo yn y gystadleuaeth. Bu iddynt ganu Hen Wlad Fy Nhadau i rhoi bach o hwb i'r hogia!!



Blwyddyn 6

Cafwyd gwasnaeth arbennig er mwyn ffarwelio a Blwyddyn 6 yn ddiweddar. Dymuna holl staff yr ysgol pob llwyddiant a

hapusrwydd iddynt ym Mlwyddyn 7 Ysgol Brynrefail- bydd colled mawr i'r ysgol ar eu holau. Pob hwyl i chi blant os!

Parhad LLANBERIS



Bu disgyblion y Cyngor ar daith i gopa'r Wyddfa yn ddiweddar fel rhan o ymgyrch Cinio Ysgol Cenedlaethol. Bu Anti Lynda wrthi'n brysur yn coganio prydau blasus ar gyfer yr ymwelwyr. Cafodd y plant daith arbennig a golygfeydd godidog yn ystod y prynhawn.



Dyma lun a yrrwyd i ni gan blentyn ar ei thaith i'r ysgol o Brynrefail i Lanberis- am olygfa!



Bu Mr Gareth Roberts yn yr ysgol yn ddiweddar yn cyflwyno y mapiau newydd a grewyd ar yr ardal. Bu ar daith o gwmpas y pentref yn son am y y gorffennol yn Llanberis- bu i'r disgyblion fwynhau ei gwmni yn fawr iawn. Daeth i'r ysgol hefyd er mwyn son am hanes Llanberis o gyfnod y mammoth ymalen!!! cafwyd sioe sleidiau diddorol iawn ganddo a mwynhaodd y plant weld yr hen luniau o Lanberis.



Daeth Sara i'r ysgol er mwyn rhoi cyflwyniad arbennig ar ddiogelwch personol yn ddiweddar. Dyma ei llun gyda Trystan Torr sydd yn mynychu gwersi Karate gyda Sara. Atgoffwyd y disgyblion o beryglon dieithriaid yn y pentref yn ystod y gwyliau.



Cyngor Ysgol
Ysgol Iach

Mae plant y Cyngor wedi bod yn brysur iawn y tymor hwn yn edrych yn ofalus ar sut i wella iechyd y disgyblion. Bu iddynt ddewis gwneud pamffled bwyta yn iach a chreu tystysgrif er mwyn gwobrwyo y plant hynny sydd yn rhoi bwyd iach yn eu bocsys. Dyma un o'r plant cyntaf i dderbyn tystysgrif brolio- da iawn Nel!



Chwaraeon. Bu disgyblion yr ysgol yn brysur iawn yn ddiweddar ac maent wedi profi yn hynod o lwyddiannus mewn sawl maes. Dyma griw Criced yr ysgol yn dathlu diwrnod llwyddiannus yng Nghaernarfon yn ddiweddar. Aethant i'r rownd nesaf yn Efailnewydd a dod adref wedi cael diwrnod bendigedig - tro nesaf hogia! Diolch i'r rhai a fu'n cynorthwyo ar y diwrnod.



Gala Nofio Ysgolion

Dyma dim nofio yr ysgol a fu'n cystadlu mewn Gala Ysgolion yn ddiweddar- da iawn chi blant, yr oedd y safon yn uchel iawn.

Parhad LLANBERIS



Tre Ceiri

Bu disgyblion Blwyddyn 6 yn olrhain hanes eu cyndeidiau yn Nhref Ceiri yng nghwmni Rhys Mwyn yn ddiweddar. Piti am y tywydd ar y diwrnod ond cafwyd sgwrs ddifyr am gwaith archaeolegwyr ar safle ym Meillionydd ger Rhiw.



Melin Llynnon. Bu'r plant ar ymweliadau lu y tymor hwn er mwyn astudio y Celtiaid. Cafodd Blwyddyn 3,4 a 5 ddiwrnod bendigedig Ym Melin Llynnon yn astudio ffordd o fyw y cyfnod yn ogystal (a) gweld y felin yn gweithio. Dyma lun o ryfelwyr Celtiaid ary diwrnod.



Siarter Iaith

Mae'r Cyngor hefyd yn brysur yn hyrwyddo yr iaith Gymraeg ac yn wir obeithio derbyn gwobr Aur Siarter Iaith Gwynedd y tymor hwn. Mae'r Adran Iau wedi dewis canmol un plentyn yr wythnos am ymdrech i siarad yr iaith Gymraeg yn gymdeithasol.



Presenoldeb Llawn!

Llwyddodd y tri disgybl hwn i fynychu'r ysgol pob diwrnod eleni- dyma gamp! Da iawn wir Deio Llwyd Roberts, Sam Booth a Swyn Alaw Jones am bresenoldeb llawn am 2014/2015- plant iach iawn mae'n debyg!



Mabolgampau Ysgol Dolbadarn:

Cafwyd pnawn gwerth chweil ar Gae'r Ddol yn ddiweddar wrth i blant y ysgol ymuno yn y Mabolgampau am y diwrnod! Seiont oedd y ty buddugol- hen bryd meddai ambell un (2007 oedd y tro diwethaf iddynt ennill)!

Dyma gefnder a chyfnither yn gafael yn falch iawn yng Nghwpan Elfed Morris- da iawn Medi a Jac!



Victor Ludorum sef y bachgen gyda'r nifer mwyaf o bwyntiau: Dafydd Mullane

Victrix Ludorum sef yr eneth gyda'r nifer mwyaf o bwyntiau: Lisa Rowlands



Mabolgampau Yr Urdd : Talaith y Gogledd Daeth Caio a Harmony a thystysgrifau arbennig iawn yn ol i'r ysgol ar ol mynychu'r noson ym Mharc Eirias- da iawn chi pencampwyr Dolbadarn!



Bachgen gyda'r nifer mwyaf o bwyntiau: Billy Jones a Caio Thomas
Geneth gyda'r nifer mwyaf o bwyntiau: Awel Davies.



Gala Nofio Yr Ysgol

Bu cynnwrf mawr yn y pwll nofio yng Nghaernarfon yn ddiweddar- yr oedd y disgyblion Adran Iau yn cystadlu yn erbyn ei gilydd mewn Gala. Nofiodd pawb yn wych ac yn wir yr oedd y safon yn uchel. Padarn oedd y pencampwyr eto eleni! Dyma Deio a Lily y capteiniaid yn gafael yn dynn yn y darian!

Parhad LLANBERIS

BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts.
Ffôn: 870580

Cyfeillion Plas Pengwaith Enillydd y Bêl Bonws am fis Gorffennaf oedd Mr. Derek Jones.

Oedfaon Capel Coch am fis Medi

6ed: 10yb John H. Hughes; Syh Parti Bythol Wyrdd
13eg: 10yb Y Gweinidog; Syh Oedfa Moli
20fed: 10yb a Syh: Parch Eifion Wyn Williams
27ain: 10.30yb Oedfa Deulu; Syh Dim Oedfa

Er cof am Myrddyn Pritchard, Llanberis

Ar angladd yr un addas - ar aelwyd

drwy'r olaf gymwynas.

Er ei graith, ef ŵr a gras;

un ei arddull, rhoi'r urddas.

Richard Llwyd Jones

Pen-blwydd Priodas Llongyfarchiadau a'n dymuniadau gorau i Gwyn Hefin ac Ifanwy Jones, Rhandir, ar ddathlu eu Priodas Aur ar Awst 11eg.

Cofion Gorau'r ardal at Mrs Megan Morris, Minffordd gynt, sydd ar hyn o bryd yn cartrefu yn Plas Garnedd, Llanberis. Da yw deall eich bod wedi cartrefu yno a bod yr iechyd yn weddol.

Yr Eglwys Bresbyteraidd

Y Gymdeithas

Cafwyd cyfarfod o'r Gymdeithas nos Iau Gorffennaf 30ain. Llywydd y noson oedd Robert John Williams, Tyddyn Badin a da oedd ei weld wedi gwella yn dilyn anhwylder yn ddiweddar. Wedi ein harwain mewn defosiwn, croesawodd un o blith yr aelodau, sef Gwyn Hefin Jones, i roi sgwrs am ei ymweliad â Ciwba. Cawsom ddarlun cywir o'r wlad yn hanesyddol dros nifer o flynyddoedd cyn mynd ymlaen i arddangos lluniau diddorol o'r ymweliad. Roedd pawb yn werthfawrogol o'r sgwrs a diolchwyd yn gynnes iawn iddo gan lywydd y noson. Bydd y cyfarfod nesaf nos Iau Awst 20fed yng nghwmni Wyre Thomas.

Oedfaon Medi am 5.30 yr hwyr

6: Parch Marcus Robinson (Gweinidog)
13: Mr Glyn Owen, Llanwnda
20: Parch Reuben Roberts, Bontnewydd
27: Parch Geraint Roberts, Porthaethwy
Gweinyddir y Sacrament o Swper yr Arglwydd

BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: (01248) 670726

Clwb Bro Bethel Bydd gweithgareddau'r Clwb yn ail gychwyn brynhawn Mawrth, Medi 8fed, am 2.00 o'r gloch yn Festri Cysegr. Y wraig wadd y mis yma fydd Annette Bryn Parri. Dewch draw am dro a chael cyfle i gymdeithasu, gwrandao ar sgwrs a mwynhau panad ar y diwedd. Mae rhaglen amrywiol wedi ei threfnu gan gynnwys cinio Nadolig mewn Gwesty, cyngerdd gan blant yr ysgol a gwibdaith i ddiweddu'r flwyddyn. Bydd y croeso arferol yn eich disgwyl.

Pwyllgor Eisteddfod Bethel Mae trefniadau ar gyfer Eisteddfod Bethel 2015 ar y gweill gyda Hydref 17fed wedi ei glustnodi fel diwrnod yr Eisteddfod. Bydd y Noson Ddawns yn cael ei chynnal nos Fawrth Hydref 13eg a'r Celf a Chrefft i'w gyflwyno Hydref 14eg.

Mae cyfle i blant sydd eisiau cystadlu mewn partion cerdd a / neu llefaru (cynradd ac uwchradd) gofrestru gan roi eu henwau i Lowri Evans (01248 670 329) neu Eleri Moss (01248 351 377) erbyn Medi 12fed. Os oes rhywun eisiau rhoi cynnig ar hyfforddi mae croeso i chwi hefyd roi eich henwau ymlaen i Lowri.

Bydd Rhaglen yr Eisteddfod ar gael yn fuan gyda chopiau ar gael am ddim yn y Swyddfa Bost.

Cyfarfod nesaf y Pwyllgor i'w gynnal Nos Lun, Medi 7fed, 2015 yn Festri Capel BETHEL am 7pm.

Dymuna Richard Efans, Bigil, Bethel, ddiolch yn fawr iawn i deulu, ffrindiau a chymdogion Bro'r Eco am ei noddi ar gyfer ei alldaith i Fongolia mis Gorffennaf eleni. Diolch hefyd i Dylan a'r staff Crib Goch, Llanberis, am eu haelioni a'u cymorth parod.

Llongyfarchiadau i Mari Elena Slater Parry, Parc y Wern, Bethel sydd wedi derbyn gradd MSc mewn Cemeg gyda theilyngdod o Brifysgol Bangor. Llongyfarchiadau oddi wrth Nain Penmon. Dymuniadau gorau iddi yn ei chwrs doethuriaeth yn y maes y mae eisoes wedi ei gychwyn.

Llongyfarchiadau mawr i Gwawr, 9 oed, o Bro Rhos ar basio arholiad canu gyda rhagoriaeth. Mawr ddiolch i Sian Gibson am ei hyfforddiant a'i chefnogaeth. Da iawn, Gwawr, a dal ati gan y teulu i gyd.

Te Mefus Gwnaed elw o £480 tuag at ymchwil Cancr y Fron yn y te Mefus a gynhaliwyd yn y Neuadd bnawn Gwener, Gorffennaf y 10fed. Diolch i bawb am eu cefnogaeth a'u cyfraniadau hael.

Llongyfarchiadau i holl blant y pentref ar eu llwyddiant yn eu arholiadau yr haf yma. Dymuniadau gorau iddynt mewn coleg, ysgol neu waith i'r dyfodol.

Llongyfarchiadau mawr i Dion Rhys Williams ar ennill Gradd Dosbarth Cyntaf gyda Anrhydedd mewn Peirianyddiaeth Meddalwedd (Software Engineering) ynghyd â chael ei wobrwyo fel myfyriwr Blwyddyn Olaf Gorau. Pob lwc iddo yn ei swydd newydd yn Lerpwl, oddi wrth Nain a Taid, 5 Stad Eryri.

I gyfarch a llongyfarch Owain Llestyn Thomas, ar ennill y Rhuban Glas Offerynol yn Eisteddfod Genedlaethol, Meifod 2015.



Ar lwyfan haf Mathrafal
nid yw'r chwyth yn mynd ar chwâl.
Caed Wow! Yn natgan Owain
daw hud o'r corn, yn fedr cain.
Corn yn fyw, caed Carnifal-
bravo, cameo pob cymal;
â gwên mae mor hamddenol
tua'i gamp yn taro'i gôl.
Araf, neu'r tempo eirias,
yn ben yn glir – ruban glas!

RLLJ



Llwyddiant Gymnasteg.

Llongyfarchiadau i Beca Angharad Jones, Ty Newydd, sy'n 5 oed, a newydd ddechrau dilyn gwersi gymnasteg yn y Ganolfan Hamdden yng Nghaernarfon. Bu'n cymryd rhan mewn cystadleuaeth yn y Ganolfan o fewn ychydig wythnosau i ddechrau ei gwersi, a daeth yn Sed allan o 26 o enethod eraill. Da iawn ti, Beca, a gobeithio fod mwy o llwyddiant i ddod yn y dyfodol.

Gôl-geidwad enwog Ar y rhaglen 'Ar y Marc' ar Radio Cymru ganol mis Gorffennaf roedd sgwrs am gôl-geidwaid enwocaf Cymru. Un o nifer a enwyd oedd Aled Lodj Jones, Bryn Gof, am ei anturiaethau yn y gôl i ddim Caeathro mewn gemau enwog 'rhyngbentrefol' yn erbyn y Waunfawr bob Nadolig a Pasg yn ystod y 1960'au a 1970'au. Ar ddydd San Steffan mae'n debyg y byddai'r gêm, a sawl cinio Nadolig yn landio ar y cae, a neb yn penio'r bêl rhag gwneud eu hangofyrs yn waeth. Ceir hanes lliwgar iawn yn rhifyn 297 o Eco'r Wyddfa, Chwefror 2003 gan Dylan Iorwerth oedd yn ffan o'r gemau hyn. (Ewch i archifau yr Eco!!!!)

Gwasanaethau'r Capel

Medi 6ed am 2 p.m.: Sul croeso'n ôl 'Hen a Newydd' dan ofal y Parch Marcus Wyn Robinson, ac am 3 p.m. cynhelir Cyfarfod Swyddogion.

Medi 20fed am 2p.m.: Parch J. Ronald Williams.

Huw Ceiriog fydd llywydd y mis a'r organydd fydd Nia Jones.

Bore Coffi Macmillan Ar fore Sadwrn, Medi 26ain rhwng 10 a 12.30 a.m. cynhelir bore coffi yng Nghanolfan y Capel gyda stondinau, raffl, cacen a phaned a sgwrs. Os oes unrhyw un am ddod â stondin yna cysylltwch â'r trefnydd, Llio Jones, ar 07879 475048. Dewch yn llw i gefnogi gan gofio i'r bore coffi y llynedd godi bron i fil o bunnau i achos mor deilwng.

Tynfa Misol Dyma ganlyniadau mis Gorffennaf ac Awst.

Gorffennaf: 1af £40: Iona Ceiriog, 4 Erw Wen (98); 2il £25: Berwyn Roberts, Sea View (70); 3ydd £15: Norman Hughes, Llyn Gele (35); 4ydd £5: Robin Evans, Bryn Eden.

Awst: 1af £40: Stephen a Kerry, 9 Bryn Gof (44); 2il £25: Dennis Ratcliffe, Sgubor Bach (69); 3ydd £15: Hannah Hughes, Llyn Gele (25); 4ydd £5: Dr Helen Jones, Maes y Coed (76).

Miri Medi Cynhelir prynhawn o weithgareddau a gemau ar y Cae Chwarae (canol y pentref), i gychwyn am 2p.m. gyda Rhost Mochyn am 5p.m. Croeso cynnes i bawb.

Cyfarfod Blynyddol Ar nos Lun, Medi 21 am 8.15p.m. cynhelir Cyfarfod Blynyddol y Gymdeithas Cae Chwarae yng Nghanolfan y Capel. Cysylltwch â Ysgrifennydd y Gymdeithas, Dewi Jones, 13 Erw Wen, erbyn canol dydd Medi 14 os bydd gennych rhyw eitem ar gyfer yr Agenda. Estynnir croeso i holl drigolion Caeathro a Rhosbach a bydd cyfle i drafod gweithgareddau'r Gymdeithas am y flwyddyn.

Croeso mawr i Aaron a Ffion a'u mab bach, Hari, sydd wedi cartrefu yn Llety. Gobeithio y byddwch yn hapus iawn yn ein plith.

Llongyfarchiadau Ganwyd merch fach, Casi Rhys, i Rhys a Fflur Roberts, ac wyres fach gyntaf i Einir Roberts, 3 Erw Wen, a nith i Catrin Gwenllian. Llongyfarchiadau mawr i chi i gyd fel teulu.

Caeathro Bryn.

Bu farw Bryn Griffiths yn dawel yng nghwmni ei deulu yn Delfryn, Caeathro, wedi brwydr yn erbyn gwaeledd, a chystudd byr ar 18fed o Fehefin. Ef oedd yr hynaf o wyth o blant i Gwilym a Dwynwen, yn ŵr cariadus i Dilys, a thad gofalus i Philip, Yvonne a Sharon. Roedd hefyd yn frawd, taid a hen daid balch tu hwnt.

Roedd yn gymeriad unigryw; yn ffraeth ei ddiddanwch a bywiog ei sgwrs bob amser; byth yn hapusach nac yng nghwmni ei gyfeillion yn adrodd stori a chodi gwên ble bynnag yr âi. Yn enedigol o Gaeathro, carodd ei filltir sgwâr heb os, sef maes chwarae ei blentyndod, ei gynefin a'i gartref. Ar lan yr afon y rhoddai ei fryd, ac yr oedd yn ei anterth wrth fachu pysgodyn a phorthi'r awen am rhyw gerdd neu ddwy. Roedd ganddo afiaith anhygoel am fywyd a hynny yn wyneb aflwydd ac afiechyd hir-dymor. Gwelodd sawl cyfnod yn yr ysbyty dros y blynyddoedd, yn derbyn amryw o driniaethau a llawdriniaethau, ond ni phallodd ei asbri na'i ysbryd byth: rhywbeth y byddai pawb a'i hadwaenai yn ei lwyr edmygu.

Treuliodd lawer o'i blentyndod gyda'i daid, Elis Jones, ac ef a ddysgodd iddo sut i drin y wialen, i gawio plu ac i saethu'n feistrolgar. O ganlyniad roedd ei fuddugoliaethau ar lannau afonydd a llynoedd led-led Prydain yn chwedlonol. Gyda'i daid yn ogystal y bu iddo feithrin ei ddawn am ddweud stori a hawlio cynulleidfa. Mae trysorfa ohonynt i'w cael mewn llyfr o gyfansoddiadau heb eu cyhoeddi, ond sydd bellach yn anwyl iawn i'r teulu.

Roedd ganddo grefft llaw benigamp wedi ei mireinio yn ystod ei gyfnod yn Sinc Harriet, Chwarel Dinorwig, hefo'i dad; cyfnod a wnaeth argraff sylweddol arno. Cymerai falchder mawr yn y gwaith o drin llechen. Dyma'r cyfnod pryd y bu i'w ddiddordeb mewn geiriau egino a blodeuo. Roedd clebran a chanu'r caban wedi tanio'i ddychymyg. Daeth yr awen wrth wrando ar fwrlwm barddoni a chanu emynau, a phlannwyd hedyn a fyddai'n gwreiddio'n ddwfn i'w bersonoliaeth a sbar-duno ei hanfod am ddiwylliant o hynny ymlaen. Roedd wrth ei fodd yn sgwennu penillion, a barddoni'n answyddogol, a chafodd bleser a chysur o gyfansoddi. Ymddiddorai mewn cerddoriaeth a daeth diwylliant Cymraeg a Chymreig yn rhan annatod o'i fywyd. Mynychai'r Eisteddfod Genedlaethol gyda Dilys pan oedd iechyd yn caniatáu, a hoffai wrando ar gerdoriaeth, gan ymgolli yng ngwaith Timothy Evans a chorau meibion.

Gwag a thawel iawn fydd bywyd hebddo. Ein hiraeth fydd yn enbyd am y llais a lanwodd ein calonau gyhyd. Rydym fodd bynnag yn hynod falch a breintiedig o fod wedi mwynhau ei gwmni ar hyd y daith, a chawn gysur o'n hatgofion braf ac etifeddiaeth ei bersonoliaeth a gafodd gryn argraff ar ei deulu a'i ffrindiau i gyd.

Ni phlyg y wialen i'r gelyn – heddiw

Llesg yw pob pysgodyn;

Llwm a llonydd fydd y Llyn

Heb anfeidrol, anfarwol Bryn.

Cynnal a Chadw Gerddi ac Adeiladau



TORRI GWAIR/ GWRYCHOEDD/ COED
PLANNU • CHWYNNU • PEINTIO • GWAITH COED
PLASTRO • GOSOD CEGINAU AMCANGYFRIF AM DDIM

Sion Roberts ▶ **07759415753**

3 CARADOG PLACE • DEINIOLLEN • LL55 3H5

Cyd-weithrediad rhwng Antur a Phrifysgol Bangor



Siaradodd Dafydd am ei waith yn y depo ailgylchu yn Cibyn, sef Caergylchu.

Mae cydweithrediad diweddar rhwng Antur Waunfawr a Chanolfan Newid Ymddygiad Cymru, a leolir ym Mhrifysgol Bangor, wedi arwain at lansio Adroddiad Effaith hawdd ei ddarllen.

Sefydlwyd yr Antur dros 30 mlynedd yn ôl i gynnig cyfleoedd gwaith a hyfforddiant i unigolion sydd ag anawsterau dysgu, a hefyd i roi cymorth i unigolion yn eu cartrefi eu hunain. Mae'r adroddiad newydd yn dangos yr effaith mae'r Antur yn cael ar lesiant pobl, trwy wella'r agweddau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd o'u bywydau.

I greu'r adroddiad, gweithiodd yr Antur yn agos gydag ymchwiliwyr ymddygiad Elizabeth Woodcock a Hong Chun Tan, a chafodd lansiad swyddogol yr adroddiad ei arwain gan yr Athro



Gwnaeth David John sôn am weithio ar y derbynfa yn Warws Werdd, yn ateb ffônau ac yn delio efo cwsmeriaid.

Jerry Hunter o Brifysgol Bangor. Yn ystod y cyflwyniad, cafodd rhai o'r unigolion sy'n derbyn gwasanaeth gan yr Antur y cyfle i siarad am eu gwaith a'u bywydau cymdeithasol, ac i ddangos rhannau o'r adroddiad mewn fersiwn sgrîn-gyffwrdd.

Mae David John wedi gweithio efo'r Antur ers y dechrau un, a dywedodd: "Wnes i fwynhau cyflwyno darn fi o'r Adroddiad, a siarad am fy ngwaith yn y Warws Werdd. Mae'r fersiwn sgrîn-gyffwrdd yn grêt."

Dywedodd Brif Weithredwraig yr Antur, Menna Jones: "Rydym yn ddiolchgar iawn i'r Brifysgol am gyd-weithio gyda ni, ac rydym yn falch iawn o bob un o'n gweithwyr wnaeth gymryd rhan yn y cyflwyniad. Nhw wnaeth sicrhau fod y digwyddiad yn llwyddiant mawr."



Gwnaeth Elizabeth Woodcock, ymchwiliwr ymddygiad gyflwyno'r adroddiad, ar ôl gweithio'n agos efo'r Antur i'w gyflawni.



Gwnaeth yr Athro Jerry Hunter siarad am y gobaith o gydweithio gyda'r Antur eto yn y dyfodol.



Mae Peter yn gweithio ar brif safle'r Antur yn Waunfawr, ac fe wnaeth sôn am helpu allan yn y Caffi ac yn y siop grefftiau.

RHOSTIO MOCHYN

Gyda saws afal a stwffin mewn rholiau

AR GYFER
POB
ACHLYSUR

DEWCS MAE
O'N FLASUS

PARTION • PRIODASAU • PEN BLWYDD
BEDYDD • DAWNS • GWYLIAU
CIG O FFERMYDD LLEOL
PARTION RHWNG 40-400!

Cysylltwch a
John Brynafon
LLANRUG
www.ydyncig.co.uk

675190 • 673188
Symudol- 07798 718188

SAMARIAID

Mae

Llinell Gymraeg

0300 123 3011

ar gael bob nos
rhwng
7.00pm ac 11.00pm



**GERAINT OWEN
CARPEDI**

CARPEDI • VINYLs • TEILS
CANOEDD O BATRYMAU I DDEWIS
A RHAI MEWN STOCK

Cil y Mynydd Waunfawr Gwynedd
A Uned 5 Gwyrfaï Mill Bontnewydd

(01286)650552 Mob. 07712779475



CHWILOTA

chwilota.wordpress.com

Pwy oedd y milwr o Lanrug?

Wythnos weithgareddau Ysgol Brynrefail yn ystod mis Gorffennaf sy'n gyfrifol am yr hanes hwn. Tra ar ymweliad a Mynwent Eglwys Llanrug, daethpwyd ar draws bedd milwr o'r enw Major Richard Jones. Roedd ei oedran yn awgrymu y gallai fod wedi bod yn rhan o Frwydr Waterloo, ond tybed? Oedd yna un o drigolion y plwyf wedi bod yn rhan o'r frwydr enwog honno, ac os oedd, pwy oedd Richard Jones?

O chwilio Cyfrifiad 1841 cafwyd ef yn byw yn Nhy'n y Coed, gyda morwyn yn gofalu am y ty. Mae'n rhoi ei oedran yn 65, ond yn dynodi ei fod wedi ei eni o'r tu allan i'r sir. Nid brodor o Lanrug oedd hwn, felly.

Mae gwybodaeth fanylach i'w gael yng Nghyfrifiad 1851. Erbyn hyn mae'n disgrifio'i hun fel lodjwr, ond yn 'Army Major'. Dywed mai yn Nulyn, Iwerddon y cafodd ei eni. Ond mae ei enw yn awgrymu cysylltiad Cymreig. Erbyn y flwyddyn hon, teulu Robert Roberts oedd yn byw yn Nhy'n y Coed, ac ef sy'n disgrifio'i hun fel penteulu. Roedd Robert Roberts wedi ei eni yn Nolgellau, a'i wraig yn Llanbeblig, ond y plant yn Llanrug.

Roedd Ty'n y Coed ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg yn eiddo i Reithoriaeth Llanberis a Llanrug, ac yn gweithredu fel Rheithordy. Yma y bu'r Parch Peter bailey Williams yn byw pan ddaeth yma'n Rheithor y ddau blwyf. Yn gynnar yn ystod ei gyfnod ef fel Rheithor cafwyd cymhorthdal ariannol o gronfa'r Frenhines Anne (y Queen Anne's Bounty fel y cai ei alw) i wella'r ty.

Ond am ba hyd y parhaodd yn eiddo'r eglwys? Symudodd y Parch Peter Bailey Williams oddi yno, ac mae'n debyg fod y ty yn cael ei osod ar rent er mwyn cynhyrchu arian i'r eglwys blwyfol. Tybed a oedd Major Richard Jones yn rhentu'r ty yn 1841, ond ei fod erbyn 1851, ac yntau'n 75 mlwydd oed, yn methu cynnal yr eiddo, ac i deulu Robert Roberts symud yno i ffermio'r tir?

Bu Major Richard Jones farw ar y dydd cyntaf o Dachwedd 1857 ac fe'i claddwyd yn y fynwent blwyfol rhyw led cae neu ddau o'r cartref, ar y seithfed o'r mis. Ar y dyddiad hwn mae cofiant byr iawn iddo yn ymddangos yn y Caernarvon and Denbigh Herald, ond brawddeg yn unig yn nodi ei farwolaeth yn y North Wales Chronicle. Yn y C&D mae'n cael ei ddisgrifio fel "Major (Brevet Lieutenant Colonel) Richard Jones, late of the 25th Infantry. He was in the storming party at the siege of Bergen op Zoom, and served for above 20 years with his regiment in Jamaica and other West India stations. He retired at half pay at the short peace of

1814."

Roedd wedi ymddeol o'r fyddin cyn Brwydr Waterloo felly, oherwydd yn 1814 yr oedd Brwydr Bergen op Zoom yn yr Iseldiroedd, a'r Ffrancwyr enillodd y dydd. Mae'n ymddangos iddo ymddeol yn fuan wedi'r frwydr honno, ac yntau (os yw ei oedran yn gywir yn y Cyfrifiadau) yn ddim ond 38 oed.

Ond a ddaeth i fyw i Lanrug ar ei ymddeoliad? Ac os daeth, pam i Lanrug? Does bosibl gwybod hynny heb lawer mwy o waith ymchwil. Ni chofiaf i mi ddod ar draws cyfeiriad ato ym mhapurau'r Parch Peter Bailey Williams, ac yr oedd yntau wedi marw cyn Cyfrifiad 1841.

Profwyd ewyllys Major Richard Jones ar Fawrth 19eg 1858, a chaniatawyd gweinyddiad yr ewyllys i Robert Roberts, Ty'n y Coed, "father and guardian of Margaret Roberts, spinster and minor, a legatee." Roedd gwerth yr eiddo a adawodd yn ei ewyllys yn llai na £1,500, ond yn parhau'n swm sylweddol yn y cyfnod hwnnw.

Stori arall yw beth wnaeth Margaret Roberts gyda'r arian a adawyd iddi yn ewyllys Major Richard Jones, a bydd angen chwilota mwy i'r hanes hwnnw hefyd.

Ond mae un cwestiwn diddorol arall yn codi. A oedd Major Richard Jones yn gyfeillgar efo'i gymdogion agos ym Mhlasterion? John Rowlands oedd yn byw yno bryd hynny, wedi iddo etifeddu'r stad oddi wrth ei ewythr. Roedd John Rowlands yn amlwg ym mywyd cyhoeddus Sir Gaernarfon. Bu'n Uchel Siryf yn 1832-33, yn Ustus Heddwch a chapten ym Militia'r sir. Ail fab John Rowlands oedd Hugh, a fu'n ddisgybl yn Ysgol Ramadeg Biwmares hyd 1842. Yn 1846 gwnaeth gais am gomisiwn gyda'r fyddin, ond ni chafodd ei dderbyn hyd fis Awst 1849. Bu'n filwr proffesiynol a dringodd i ddod yn Gadfridog, ei urddo'n farchog a'i anrhydeddu a Chroes Fictoria.

Tybed a fu'r Hugh Rowlands ifanc yng nghwmni Major Richard Jones ac iddo gael hanesion am brofiadau hwnnw yn y fyddin ugain mlynedd a mwy ynghynt? Yn llyfr cynhwysfawr W. Alister Williams "Commandant of the Transvaal – the life and Career of General Sir Hugh Rowlands VC KCB" nid oes son o gwbl am y cymydog hwn i'r teulu, ond ceir ymdriniaeth fanwl ar drafferthion yr Hugh Rowlands ifanc i gael mynediad i'r fyddin yn y blynyddoedd cynnar.

Tybed a fu gan Major Richard Jones ddylanwad arno? Sgwarnog arall i'w dilyn mae gen i ofn!

Coeden Oren ym Metws Garmon.

Tra'n pori trwy rifyn o'r hen Caernarfon and Denbigh Herald am 1845 deuthum ar draws hanes coeden oren yn tyfu yng ngardd rhyw Mrs Morgan ym Metws Garmon. Ni roddir enw'r cartref yn yr adroddiad. Mae'n ymddangos fod y goeden wedi ei phlannu naw mlynedd ynghynt, ond mai dyma'r tro cyntaf i'r goeden flodeuo, a hynny ym mis Mai. Roedd gobaith y deuai ffrwythau maes o law, ac fel hyn y mae'r adroddiad yn diweddu: "Oranges growing at the foot of Snowdon will somewhat astonish our English visitors." Ac yn cael ei ddweud fel petai gweld coeden llawn orennau yn ddigwyddiad cyffredin i'r Cymry lleol!

Teulu Hugh Lewis.

Rai rhifynnau yn ol rhoddais sylw i Hugh Lewis, siopwr yn Llanberis, a stiward a gollodd ei waith yn Chwarel Dinorwig yn ystod helynt 1875. Symudodd y teulu i Fangor, ond arhosodd mab iddo yn Llanberis; yn weithgar gyda dysgu canu cynulleidfaoel. Roedd un arall o'r meibion yn gerddor, ac wedi derbyn addysg gerddorol yn Llundain. Mudodd rhai o'r plant i'r America. Yn ystod yr haf, daeth un o'r disgynyddion drosodd o'r America i ymweld a'r ardal ac i weld hen gartrefi ei chyn-deidiau. Cyddigwyddiad hollol oedd y ffaith fy mod wedi trin a thrafod y teulu yn y golofn hon tra bo hithau, ar ochr arall yr Iwerydd yn chwilota am hanes ei chyn-deidiau.

—Trwsio ac Adnewyddu Dodrefn—

Wedi torri darn o ddodrefn?

Hoff gelfi wedi mynd i edrych yn drist?

Cysylltwch â ni i roi bywyd newydd i'ch trysor

Dennis & Julie Jones

01286 650255



Ffenestri CADNANT Windows

iorwerthwilliams@fsmail.net

DRYSAU □ FFENESTRI
A CONSERFATORIS UPVC
AMCANBRIS AMDDIM

13 Eryri, Bethel, Caernarfon, LL55 1BX 01248670833 • 07801346652

Priodas yn Llanberis?



Anfonwyd y llun gan Liz Roberts, Bangor (Llanberis gynt), a chais sydd ganddi am wybodaeth am unrhyw berson sy’n ymddangos yn y llun. Daeth ar draws y llun tra’n clirio’r cartref yn Stryd Siarlot, Llanberis. Rhywun efo’r cyfenw Williams o Gaernarfon oedd y ffotograffydd, ond E.C.Pound oedd perchennog y stiwdio. Mae hynny’n dangos mai priodas leol sydd yma. Mae’r enw Jennie Davies wedi ei ysgrifennu ar gefn y llun hefyd. Roedd Jennie

Davies (sydd yn y llun), yn chwaer i fam Liz Roberts, ond bu farw yn 1931, felly dyna gliw ynglyn a dyddiad y llun. Oes rhywun yn adnabod yr adeilad yn y cefndir? Mae tua dwywaith mwy o ferched yn y llun nac o ddynion, a’r mwyafrif ohonynt yn gwisgo ffwr o amgylch eu gyddfau. Dyna’r cais felly: pwy sy’n priodi, ymhle, ac a oes unrhyw un yn adnabod y gwsteion?

Os oes gennych unrhyw ymholiad am agweddau o hanes lleol bro’r “Eco”, neu unrhyw hanesyn diddorol am unrhyw gyfnod yn hanes y fro, yna cysylltwch a Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon. LL55 4BA (Ffon: 01286 673515) e-bost: dafydd.wthomas@btinternet.com neu ar safle chwilota.wordpress.com

Gwasanaeth Gwres a Plymio

Ar Gyfer Eich Holl Anghenion Gwres A Plymio
Gwaith proffesiynol o'r safon orau pob amser

Arwel Jones - 1 Cefn Cynrig • Bethel • LL55 1UW
Tel. (01248) 674927 Mobile- 07798 746718

TM JONES

SEFYDLWYD DROS 20 MLYNEDD

SYMUD A CHADW

CLIRIO TAI A GAREJ (Unrhyw Bellter)
CLIRIO AR OL PROFEDIGAETH
Yswiriant Llawn Domestig a Masnachol

01248 430126 • 07786176866
thomasmeredydd@btinternet.com

Royal Victoria Hotel LLANBERIS
www.theroyalvictoria.co.uk

Dathliadau • Achlysuron Arbennig • Cynadleddau
Pwyllgorau • Bwydlen Bar • Cinio Dydd Sul
• PRIODASAU •

Ffôn- 01286-870253
enquiries@theroyalvictoria.co.uk

The ROYAL VICTORIA HOTEL
Snowdonia

ARVONIA

- Gwyliau cerbyd moethus Prydeinig a Chyfandirol.
- Cerbydau moethus ar gael ar gyfer llogi preifat.
- Adran teithiau grwp.
- Tocynnau rhodd.
- Llyfryn Gwyliau 2014 ar gael nawr.

01286-675175 | www.arvonias.co.uk

CWMY GLO

Marwolaeth Yn dawel yn Ysbyty Eryri, Caernarfon, bu farw Mrs Dilys Jones, 3 Maes Gerddi, yn 86 mlwydd oed ar ôl salwch blin a ddioddefodd yn dawel. Yn enedigol o Cwm treuliodd ei phlentyndod yn Bryn Tirion, Bwlch. Wedi priodi â'r diweddar Mr Dafydd Elias Jones, ymgartrefu yn 4 Rhos Bryn Hyfryd, Bwlch, a symud i lawr chwe blynedd yn ôl i Maes Gerddi. Bu'n aelod ffyddlon yn Capel Mawr ac yna wedi cau'r capel ymaelodi yng Nghapel y Tabernacl, lle bu'n ffyddlon ar hyd y blynyddoedd. Cynhaliwyd ei hangladd ddydd Iau, Gorffennaf 9fed, yn Eglwys Santes Helen, Penisarwaun a rhoddwyd hi i orffwys ym mynwent yr Eglwys wyth wythnos yn unig ar ôl ei mab ieuengaf, Gareth. Gwasanaethwyd gan y Parchedig Gwynfor Williams, gyda Dr Wiliam Munro wrth yr organ.

Cydymdeimlwn yn ddwys gyda'i mab, Arwel, ei wŷr Cailean a'i wyres Eira, ei brawd Elfed a'r teulu oll yn eu profedigaeth a'u hiraeth.

Llongyfarchiadau i blant y pentref a fu'n llwyddiannus yn eu arholiadau a phob dymuniad da i'r rhai sydd yn dechrau mewn swydd am y tro cyntaf a'r rhai sydd yn dechrau mewn coleg.

Adref o'r Ysbyty Dymunwn wellhad buan i Mrs Mari Jones, Min-y-don, a hefyd Bethan Hughes, 18 Dôl Afon, ar ôl derbyn triniaethau yn Ysbyty Gwynedd.



Tîm pêl-droed Ieuenctid Cwm-y-glo yng Ngharnifal y pentref ym Mehefin 1976

(Cefn) Gareth Jones, Arwel Jones, Alwyn Hughes, ?, Eifion Jones, Alwyn Williams.

(Blaen) Melfyn Evans, John Chick, ?, Melfyn Roberts, Emyr Bethel, Ieuan Rowlands.

DINORWIG

Marian Jones.
Ffôn: (01286) 870291

Dathlu'r 100 Ar y 26ain o Awst yr oedd Mrs Eve Braithwaite yn 100 oed. Mae yn cartrefu efo'r mab, Pat, yn Bron Elidir. Gobeithio iddi fwynhau ei diwrnod (yr ail yn yr ardal i ddathlu'r cant y flwyddyn yma). Llongyfarchiadau mawr iddi a gobeithio y caiff nerth ac iechyd i'r blynyddoedd a ddel a phob bendith iddi, a diolch i Pat am ofalu amdani.

Wedibodynrysbyty Ar nos Sadwrn, 20fed o Fehefin, fe fu raid i Mrs Pricilla Williams, Wylfa, gael ei chludo i Ysbyty Gwynedd yn bur wael. Ar y Sul canlynol fe fu raid iddi gael llawdriniaeth bur fawr. Doedd dim dewis, os na châi driniaeth colli'r dydd fyddai'r hanes, oherwydd rhaid cofio y bydd Mrs Williams yn 101 ym mis Hydref, ond er maint ei hoed daeth trwy'r cyfan.

Bu yn ddyddiau pryderus iawn i'r plant, Eurwen ac Alwyn. Bu i fyny ac i lawr am beth dyddiau a'r plant yn cael eu galw i lawr ar adegau reit boenus ond, er y cyfan, mae wedi gwella a'r gri bob dydd oedd, 'Ewch â fi adref.'

Cafodd ei symud i Ysbyty Eryri yna daeth adref a'r diwrnod canlynol fu fu raid ei symud i Gerrig yr Afon, lle y bu iddi gryfhau a gwella. Ar 11 Awst cafodd ddod adref ac yr oedd wrth ei bodd.

Mae Alwyn wedi bod yn ardderchog efo hi ac y mae'r ddau yn deall ei gilydd yn dda iawn. Does neb fel Als ganddi. Diolch i Dduw am gael un fel Alwyn sydd yn fodlon anghofio pob dim i wneud y cyfan i'w fam.

Yn awr, Mrs Williams, cael gwella yn iawn ac edrych ymlaen am y 101.

Gwyliau'r Haf Mae llawer o gwyno wedi bod yn yr ardal yn ystod yr haf yma. Carwn ddymuno gwellhad llwyr a buan iddynt yn ystod tymor yr hydref. Gobeithio y bydd tymor yr hydref yn well na'r haf, gan obeithio y cawn Haf bach Mihangel.

Dymuniadau Gorau Erbyn hyn, gwaetha'r modd, mae y dyddiau yn tynnu i mewn, felly wrth gwrs y mae gwyliau'r haf yn tynnu tua'u terfyn. Carwn ddymuno yn dda i'r rhai sydd wedi gadael yr ysgol ac yn mynd i'r coleg neu i ryw swydd arall. Rhaid cofio am y rhai fydd yn gorfod mynd i'r ysgol am y tro cyntaf, gan newid eu byd bach diniwed yn gyfan gwbl am byth, gan gofio nad oes ganddynt syniad beth sydd o'u blaenau a llawer o golli dagrau gan fam a phlentyn.

Llongyfarchiadau i bawb o ardal yr Eco a fu yn llwyddiannus yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Meifod. Da iawn chi. Hefyd cofiwn am y rhai na fu mor llwyddiannus, da iawn chwithau hefyd am drio, gwell lwc y tro nesaf. 'Dyfal donc a dyr y garreg'. Dymuniadau gorau iddynt i gyd.

Arholiadau Llongyfarchiadau mawr i'r rhai sydd wedi llwyddo yn yr arholiadau, gan obeithio eu bod yn hapus hefo'u canlyniadau ac y gallant fynd ymlaen â beth bynnag yr oeddynt wedi edrych ymlaen i'w wneud. Os na fuont yn llwyddiannus y tro yma gwell lwc y tro nesaf. Hwyl fawr a phob lwc i'r holl blant i'r dyfodol.

WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon. Ffôn: (01286) 650570

Clwb 300 Enillwyr mis Mehefin: £30: Eurig Wyn, Y Fenni; £20: Ms Myfanwy Roberts, Clyd y Coed; £10: Miss Rhian Griffith, 6 Tŷ Hen.

Gorffennaf: £30: Dr Huw Roberts, Culfor, Ffordd Bangor, Caernarfon; £20: Ms Hilda Williams, 8 Croes y Waun; £10: Mrs Lesley Williams, 4 Tŷ Hen.

Merched y Wawr Byddwn yn cyfarfod yn y Ganolfan am 7.30 ar y pedwerydd nos Iau o'r mis i wrando ar siaradwyr diddorol ac weithiau cymeryd rhan yn y gweithgareddau. Rhan bwysig o'r nosweithiau fydd y baned a'r sgwrs fydd yn digwydd ar ddiwedd bob cyfarfod.

Mae yna raglen o ddiddordeb i bawb wedi ei threfnu. Y cyfarfod cyntaf fydd ar Fedi 24, sef noson anffurfiol i gofrestru a bydd y pwyllgor wedi darparu lluniaeth ar gyfer yr aelodau, hefyd raffl a chasgliad i godi arian i Macmillan.

Croeso cynnes i bawb.

Llwyddiannau pobl ifanc y pentref Llongyfarchiadau mawr i'n pobol ifanc ar eu llwyddiant yn yr arholiadau y buont yn gweithio mor galed ar eu cyfer. Dymuniadau gorau i bob un ohonoch yn y cam nesaf yn eich gyrfa.

Llongyfarchiadau i Mared Ynyr, Dolwar Fach, a Mared Rhys, Eryri Wen. Mae'r ddwy wedi ennill Ysgoloriaeth Cymhelliant gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

Bydd Mared Ynyr yn astudio'r Gyfraith ym Mhrifysgol Caerdydd a Mared Rhys yn astudio'r Gyfraith ym Mhrifysgol Bangor.

Priodas Llongyfarchiadau i Sharon Lewis a Steven Thomas ar achlysur eu priodas. Dymuniadau gorau a phob hapusrwydd ichi. Mae'r pâr ifanc wedi ymgartrefu yn Stad Tref Eilian.

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Lesley Griffith, 4 Bryn Celyn ar ei phriodas â Wayne Rowlands o Gaernarfon. Dymunwn bob hapusrwydd i chi yn eich bywyd priodasol.

Dathlu Pen-blwydd Llongyfarchiadau i Mrs Alice M. Hughes, Stad Bryn Golau, ar gyrraedd ei phen-blwydd yn 93 mlwydd oed. Cafodd ddiwrnod arbennig gyda'r wyrion, y wyresau a'r gorwyrion a'r gorwyresau yn galw i weld nain.

Llongyfarchiadau hefyd i Ffion Alaw, Stad Tref Eilian, a Shannen Owen, Stad Dôl Erddi a Kai Alock, Bron Aber a fu'n dathlu cyrraedd eu deunaw oed. Dymuniadau gorau ichi i'r dyfodol.



Bws Whiteway. Ar faes parcio'r Eisteddfod Genedlaethol ym Meifod y gwelwyd hwn. Chwarae teg i drigolion y Waunfawr am gefnogi cwmni lleol i'w danfon i'r 'steddfod!

Ymddeoliad Dymuniadau da i Rhian, Gorffwysfa, ar ei hymddeoliad o'i swydd yn swyddfa Ysgol Syr Hugh Owen. Mwynha dy ymddeoliad, Rhian.

Dymunwn yn dda i bob un fydd yn cychwyn gyrfa yn yr ysgol, coleg a swydd. Mawr obeithiwn y byddwch yn hapus ac yn mwynhau.

Symud Aelwyd Wedi blynyddoedd o fyw yn y Waun symudodd dau deulu o'r pentref.

Yn Llanrug y mae John a Rhian Ellis wedi ymgartrefu. Bu Rhian yn weithgar iawn yma yn hyfforddi plant a phobl ifanc ar gyfer yr Eisteddfod bentref, ac am ddwy flynedd yn olynol daeth parti canu unsain dan 12 oed adran Urdd y Waun yn fuddugol yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd. Diolch iddi ac i Iwan, ei mab, am roi eu hamser i'r plant.

Yng Nghaernarfon y mae Don a Luned Roberts wedi ymgartrefu. Bu Luned yn 'Anti Luned' i blant ifanc y pentref tra bu'n un o'r rhai egniol fu'n gweithio ac yn cynnal y Cylch Meithrin yn y pentref. Diolch iddi.

Dymunwn bob hapusrwydd i'r ddau deulu ar eu haelwyd newydd.

Croeso i'r teuluoedd sydd wedi symud yma i ymgartrefu. Hyderwn y byddwch yn hapus iawn. Dymuniadau da hefyd i'r teuluoedd sydd wedi symud aelwyd o fewn y pentref.

Adref o'r Ysbyty Yn ystod y mis gorfu i rai o'r pentref

dreulio cyfnod yn yr ysbyty. Anfonwn ein cofion cynhesaf a'n dymuniadau da at Enfys, merch fach Manon a Robin, Stad Bryn Golau; Mrs Pat Parry, Ffridd Felan; Mrs Grace Dawson a Mrs Dilys Griffith, Stad Tref Eilian; Mrs Nelma Pritchard a Mrs Iris Evans, Stad Croes y Waun; Richard Charge, Llifon, Teras Glyn Afon a Trefor Beech, Bronallt. Croeso adref i chi i gwmni a gofal teulu.

Yn yr Ysbyty Anfonwn ein cofion cynnes at Mr T.H. Williams, Llwydiarth, sydd yn yr ysbyty ar hyn o bryd.

Ychydig ddyddiau wedi i John Nathaniel a Beti setlo yn eu cartref yn Stad Tref Eilian, cymerwyd ef i Ysbyty Gwynedd. Anfonwn ein cofion cynnes ato.

Anfonwn ein cofion cynnes hefyd at Sion Prys Jones, sydd yn derbyn gofal yn Ysbyty Eryri ar hyn o bryd. Hyderwn yn fawr y byddwch yn cryfhau ac yn teimlo'n well.

Anfonwn ein cofion hefyd at Alwyn Williams, Garreg Fawr, sydd wedi derbyn triniaeth i'w lygaid mewn ysbyty yn Lerpwl. Cofion hefyd at Mrs Olwen Williams, Noddfa, Stad Tref Eilian, wedi iddi dderbyn triniaeth i'w llygaid yn Ysbyty Abergele.

Cydymdeimlwn yn ddwys â Mr Richard Owen a theulu Tan yr Allt yn eu profedigaeth o golli priod, mam a nain annwyl, y ddiweddar Mary Awena Owen

Anfonwn ein cydymdeimlad

diffuant at Mrs Margaret Owen a theulu Bryn Gwylan yn eu profedigaeth o golli Robin, brawd ac ewythr annwyl iddynt.

Yn dawel yn Ysbyty Eryri bu farw Mrs Kit Jones (Stad Tref Eilian gynt). Cydymdeimlwn â'i mab, Phil a'r teulu, ac â'i merch Marian a'r genod yn eu colled a'u hiraeth am fam a nain annwyl.

Diolch Dymuna Bronwen, David a Trefor Beech a'u teuluoedd ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniasant yn eu profedigaeth o golli tad, taid a hen daid annwyl, Wilfred

Beech. Bu'r teulu yn byw yn Ty'n y Wern am nifer o flynyddoedd.

Dymunant ddiolch i staff cartref Plas Hedd, Bangor, am eu gofal caredig tra bu yno. Diolch hefyd i'r Parch Marcus Robinson am y gwasanaeth ddydd yr angladd ac i Gwynfor Jones (E.W. Pritchard), Llanberis am ei drefniant gofalus.

Diolch Dymuna Elgan Rhys a Mared Rhys, Eryri Wen, Stad Bod Hyfryd, ddiolch am y rhoddion a dderbyniwyd ar achlysur eu phen-blwyddi yn un ar hugain oed ac yn ddeunaw oed yn ystod mis Gorffennaf. Diolch yn fawr.



Llongyfarchiadau i Huw Emrys, Gwastadfaes, ar ennill pencampwriaeth dangosydd ifanc tywys ceffyl yn y cystadlaethau ceffylau yn Sioe Amaethyddol Llanelwedd. Derbyniodd ddau dlws am ei lwyddiant, un i'w gadw am y flwyddyn ac un i'w gadw am byth. Bu hefyd yn llwyddiannus mewn sioeau amaethyddol eraill yn ystod yr haf.



Brenhines Carnifal

Enlli Williams gyda'i morynion Olwen Baines a Megan Ebrill.

Gwylanod.

Derbyniodd y Cynghorydd Hefin Williams gwynion yn ddiweddar am broblem gwylanod ym Mhenisarwaun. Mae'r broblem wedi cael cryn sylw yn ddiweddar mewn amryw o ardaloedd, felly, dylai'r ymateb canlynol fod yn berthnasol i bawb. Mae sawl ymholiad wedi ei wneud i mi am reoli gwylanod ym Mhenisarwaun.

Mae llawer o reolau yn cyfyngu ar beth sydd yn bosibl.

'Rwyf wedi cysylltu a sawl mudiad i gael cyngor ar hyn, fel Cyfoeth Naturiol Cymru, RSPB ac Animal Aid, ymysg eraill.

Y cyngor a dderbyniais yn glir ac eglur oedd mai y ffordd orau i reoli gwylanod yw sicrhau nad oes bwyd yn cael ei roi allan iddynt, yn fwriadol, na drwy flerwch.

Os yw gwylanod yn gwybod fod bwyd yn hawdd i'w gael mewn ardal arbennig dont yno yn llw, yn aml o filltiroedd i ffwrdd.

Os ydych eisiau rhoi bwyd allan i adar yr ardd, rhwch ychydig bach ar y tro gan osgoi bwydydd fuasai yn denu llygod.

Sicrhewch hefyd fod eich bin ailgylchu bwyd wedi ei gau ac nad oes dim bwydydd mewn bagiau plastig.

Mae tymor y gwylanod ifanc bron ar ben nawr. Sicrhewch nad ydynt yn cael eu denu yn ol flwyddyn nesaf, drwy beidio rhoi bwyd allan iddynt. Dysgant yn fuan iawn mai ar lan y mor mae'r lle gorau iddynt.

Mae gennyf dafleni "Bird Advice Sheet" gan Animal Aid (yn Saesneg yn unig 'rwyn ofni) ar gael ond i chwi gysylltu a mi.

Cewch chwaneg o wybodaeth gan Animal Aid

info@animalaid.org.uk

Cronfa

Penisarwaen

Pêl Bonws Loteri - Enillydd Mis Mehefin oedd Mrs Carole Porter gyda rhif 22. Llongyfarchiadau!

Diolch - Fe hoffai Evan (Evie) Jones 3, Bryn Tirion, ddiolch o waelod ei galon i Staff Ward Conwy Ysbyty Gwynedd a Ward Peblig Ysbyty Eryri, Ann a Dave Paterson, teulu, ffrindiau a chymdogion. Hefyd holl Staff Cartref Penisarwaun ac i Anti Ann ac Anti Liz am edrych ar ôl yr Ysgol Sul yn ei absenoldeb. Yn ogystal hoffai ddiolch i'r gofawyr sydd yn ei gynorthwyo ar hyn o bryd, mae yn falch iawn o gael bod adref.

Ysgol

Penisarwaun

Mabolgampau - Cynhaliwyd Mabolgampau'r Ysgol bnawn dydd Iau, Gorffennaf 9fed. Cafwyd tywydd bendigedig gyda phawb yn mwynhau eu hunain yn cymryd rhan. Roedd y plant wedi eu rhannu i 3 gwlad a bu cystadlu brwd mewn ar draws ystod o weithgareddau. Y tîm a ddaeth yn fuddugol oedd Cymru. Diolch i bawb a ddaeth draw i gefnogi'r plant.

Tripiau Ysgol - Dydd Mawrth, Gorffennaf 14eg, cafodd plant Bl. 3-6 ddiwrnod arbennig ym Mhlas Menai, cawsant gyfle i

Pensiynwyr

fynd ar y cychod Rib a threulio amser ar y traeth gyda phawb wedi mwynhau eu hunain. Bu plant y Cyfnod Sylfaen yn ymweld â Fferm y Foel ar yr un diwrnod, a chafodd pawb amser hwyliog.

Pêl-rwyd - Cafodd y tîm pêl-rwyd wahoddiad i fynd i Ysgol Waunfawr bore Mercher, Gorffennaf 15fed, i gael gêm gyfeillgar. Llongyfarchiadau i'r tîm ar ei llwyddiant ysgubol gyda'r sgôr terfynol o 19 i 0. Diolch i bawb yn Ysgol Waunfawr am y croeso.

Gwasanaeth Ffarwelio - Trefnwyd gwasanaeth bore Gwener, Gorffennaf 17eg, er mwyn ffarwelio a dymuno'n dda i naw o blant blwyddyn 6 yr ysgol wrth iddynt drosglwyddo i Ysgol Uwchradd Brynrefail ym mis Medi. Roedd pob un ohonynt wedi paratoi ar gyfer darllen rhai o'u hatgofion yn yr ysgol, a gwahoddwyd rhieni ac aelodau o'r teuluoedd i'r gwasanaeth Rhannwyd amryw o dystysgrifau iddynt a chyflwynwyd tarian disgybl y flwyddyn i Enlli Williams a Tharian ymroddiad i Mair Jones a Carwyn Owen. Llongyfarchiadau iddynt i gyd.

Profion Cenedlaethol - Llongyfarchiadau i bawb ar ganlyniadau'r profion eleni.

GAREJ CERIS JONES

Trwsio ceir a faniau Gwaith MOT Mecanic profiadol iawn Prisiau cystadleuol

Llanrug 01286 677362 07979620996

Gwesty Dolbadarn
Llanberis

Ffôn-(01286)-870277

"RYDYM ANGEN MWY O FYTHYNNOD HUNANARLWYO"

DIONI

http://dioni.co.uk
tel: 01341 247 200
ebost: gwion@dioni.co.uk

y CYNLLUN CERDDED A DARGANFOD
the WALK AND DISCOVER PROJECT

**menter
fachwen**

RHIF ELUSEN / CHARITY NUMBER: 701163

www.menterfachwen.org.uk

CYFENTER
CALENTER

Menter
Môn

CYNIGOR
GWYNEDD
COUNCIL

ERDF

Ynysyborth Cymru
Welsh Government

Erdded a Chymru: Buddsoddi yn ein dyfodol
Cwmwl Ddiwydiol a Chymru
Europe & Wales: Investing in your future
European Regional Development Fund

TEITHIAU CERDDED MEDI 2015

SUL 6 MEDI 2.00yp

HANES YR IDDEWON YM MANGOR (2 milltir)

GYDA NATHAN ABRAMS A GARETH ROBERTS

CYCHWYN: MAES PARCIO PWLL NOFIO BANGOR
HAWDD.

IAU 10 MEDI 10.00yb

CYLCHDAITH PENISARWAUN A GLASCOED (2 milltir)

CYCHWYN: EGLWYS PENISARWAUN

CYMHEDROL GYDA GALLT, LLWYBRAU CYHOEDDUS A
CHAMFEYDD. SGIDIAU CERDDED.

MAWRTH 15 MEDI 2.00yp

CYLCHDAITH PENTIR A CAERHŪN (5 milltir)

CYCHWYN: Y FAENOL, PENTIR

CYMHEDROL.

IAU 24 MEDI 10.00yb

TAITH 5 MAP Y FELINHELI: EGLWYS LLANFAIRISGAER (5
milltir)

CYCHWYN: FELIN SGWRSIO, STRYD BANGOR, Y FELINHELI
CYMHEDROL.

MAWRTH 29 MEDI 10.00yb

WAUNFAWR, DEINOSORIAID A'R MISSOURI (2½ milltir)

CYCHWYN: CANOLFAN GYMUNEDOL WAUNFAWR

CYMHEDROL GYDA LLWYBRAU CYHOEDDUS. SGIDIAU
CERDDED.

HELFA GELF 2015

Mae'r Cynllun Cerdded a Darganfod yn rhan o'r 'Helfa Gelf' eleni a
bydd y ganolfan a siop Menter Fachwen yn Nhŷ Caxton ar y Stryd
Fawr yn Llanberis ar agor yn ychwanegol ar Medi 5, 13, 19 a 27 yn
ogystal a'r oriau arferol yn ystod y wythnos. Cewch gyfle i weld
neu i brynu lluniau gwreiddiol o'r holl fapiau mae'r cynllun wedi
ei gyhoeddi dros y blynnyddoedd (25 eisioes) yn ogystal a'r lluniau
gwreiddiol o lyfr Gareth Roberts, sef 'Y Sêr yn eu Tynerwch'.
APÊL AM WYBODAETH

Fel mae rhai ohonoch yn gwybod, mae'r Cynllun Cerdded a
Darganfod wedi cynnal arddangosfa llwyddiannus o luniau hen
gorsafodd trenau coll yr ardal ac nawr rydym yn apelio am unrhyw
wybodaeth gan darllenwyr yr Eco i'n helpu darganfod caeau pel-droed
coll ar gyfer arddangosfa newydd.

Rydym yn awyddus iawn i glywed am unrhyw wybodaeth ynglyn a
ble yn union roedd y timau pel-droed canlynol yn chwarae. Nid yw'r
timau yn bodoli rhagor ac aeth rhan fwyaf ohonynt i'r wal cyn cof.
Ond tybed a wyddwch unrhywbeth am feusydd chwarae:

Llechid Swifts, Ogwen Valley, Llanberis Com-rades, Rhiwlas Athletic,
Bethesda Comrades,
Pentir FC, Glasinfryn Swifts, Tregarth Celts, Groeslon Comrades,
Rhostryfan United,
Ebenezer (Deiniolen), Sion Rovers, Rhiwlas FC, Penrhyn Quarry FC,
Llandwrog FC,
RAF Llandwrog FC, Seiont Rovers, Rhyddallt Comrades (Llanrug) a
Glascoed Rangers


Cysylltwch â: Gareth Roberts

Menter Fachwen

01286 870681

Garethroberts754@yahoo.co.uk

Inca – Record a fu ar goll am saith mlynedd



Ddiwedd mis Medi, bydd record 7 modfedd yn cael ei rhyddhau gan
label o Lerpwl, Salvation Records. Nid yw hyn yn beth mawr nac
yn eithriadol, mae recordiau a cryno-ddisgiau'n cael ei rhyddhau
bob dydd. Beth sy'n dra gwahanol am y sengl yma yw bod y record
yn un Gymraeg ac wedi bod ar goll ers ei recordio yn ôl ym mis
Awst 2008. Fe ail-ddarganfuwyd y recordiad yma gan Anthony
Nyland, perchennog siop recordiau yn Lerpwl sydd o dras Cymreig
a hefo diddordeb eang mewn cerddorion Cymreig y 70au fel Endaf
Emlyn a Meic Stevens. Darganfuwyd y cryno-ddisg amrwd yma
drwy ddamwain a thrwy dipyn o waith ymchwil ffeindiodd y rhai a
oedd wedi sgwennu'r cynnyrch. Y cyfansoddwr oedd Rhys Jones, y
cynnwys oedd traciau Prosiect Cerddorol INCA.

Magwyd Rhys ym Methel a fe fagodd ddiddordeb mewn
cerddoriaeth yn ystod ei addysg yn Ysgol Brynrefail gan ei
athro cerdd, Mr Gareth Hughes Jones gynt o'r band pop o'r
60au, Dyniadon Ynfyd Hirfelyn Tesog. Aeth Rhys i Brifysgol
Aberystwyth lle astudiodd Hanes Celf a Hanes, ond blagurodd
ei ddiddordeb mewn cerddoriaeth gan chwarae mewn rhai
fandiau amlwg Cymreig y cyfnod. Yn 2007, tra'r oedd yn aelod o
staff Canolfan Celfyddydau Aberystwyth dechreuodd brosiect i
gerddorion ifanc Ceredigion i gyfansoddi cerddoriaeth i ffilmiau
wedi ei hanimeiddio a oedd yn cael eu harddangos yn y sinema
bob 3 mis. Roedd y perfformiadau'n boblogaidd, a denwyd sylw
gyda harwyddwyr yn gofyn i'r cerddoriaeth gael ei chwarae ty allan
i cyfyngiadau'r ganolfan. Daeth 8 aelod parhaol i berfformio ledled
Ceredigion. Fe recordiwyd saith cân amrywiol yn Stiwdio Blaen
Cae yn Garndolbenmaen yn ystod wythnos steddfod 2008 gan y
cynhyrchydd dawnus Ed Holden sydd nawr yn cael ei adnabod fel
y rapiwr poblogaidd Mr Phormula. Gyda'r record wedi ei gorffen
fe anfonwyd y cynnwys gorffenedig i'r label Sbrigin Ymborth ac
anfonwyd tua 40 copi o gryno-ddisgiau amrwd allan i gerddorion a
ffrindiau i gael sylwadau ac adborth am y cynnwys. Ni rhyddhawyd
y traciau gan y label ac yn y fan honno y credid i'r stori orffen,
atgofion melys gan lond llaw o gerddorion am gyfnod ffrwythlon
yn y stiwdio.

Ond nid dyna diwedd y gân. Ym mis Ebrill y llynedd cysylltodd
Mr Nyland â Rhys ar hen gyfeiriad e-bost hefo un cwestiwn syml
'Are you INCA?'. Doedd Rhys ddim wedi meddwl am y peth ers
blynnyddoedd, ac atebodd mai ef yn wir oedd y prosiect. Hyn oedd
dechreuad y daith o rhyddhau record goll Gymreig. Daeth rheswm
personol i'w ryddhau gyda marwolaeth ffrind a chydweithiwr
INCA y llynedd, sef Paul Davis, un o dechnegwyr sinema Canolfan
y Celfyddydau Aberystwyth a oedd yn gefn ac yn ysbrydoliaeth i
lwyddiant a dyfalbarhad y prosiect. Bydd y record yma'n cael ei
rhyddhau fel teyrnged iddo.

Yn dilyn lansio'r record, bydd y rhan helaeth o'r criw gwreiddiol yn
dod ynghyd i berfformio.

Dylid hefyd nodi y bydd label Salvation yn rhyddhau cynnwys
Cymreig arall, gydag ailargraffiad o record y ffug fand Bür Hoff Bau,
a hefyd yn rhyddhau (ar y cyd â recordiau Strangetown) waith gan y
cerddor o Griccieth, Titus Monk. Gobeithio fydd hyn yn ddechrau
perthynas ffrwythlon i label o Loegr yn rhyddhau cerddoriaeth
cyfoes Cymreig.

Am fwy o Wybodaeth ewch i

<http://prosiectcerddorolinc.com>

<http://salvationrecords.co.uk/>

FFRAMIA
Parc Padarn Llanberis
(01286) 870922

Gwasanaeth FFRAMIO LLUNIAU

DEWIS EANG O LUNIAU YN YR ORIEL AC AR Y WEFAN
William Selwyn, Rob Piercy, Keith Bowen, Keith Andrew a mwy

www.fframia.com

Ysgol Brynrefail

Veritate - Scientia - Labore

Chwarel Lechi



Trueni i'r astudiaeth o'r hen ddiwydiant llechi yn Llanberis gael ei drefnu ar ddiwrnod pan oedd glaw erchyll yn pistyllio'n ddi-baid drwy'r dydd. Ond yr oedd yn agoriad llygad i flwyddyn 7 o glywed y byddai'r chwarelwyr yn dal i weithio er gwaelod y tywydd. Yn fwy syfrdanol oedd y wybodaeth y byddai plant yr un oedran a nhw yn dechrau ar gyfnod o naw mis o brentisiaeth, a hwnnw'n ddi-dâl. Cafwyd hanes diddorol o waith y chwarelwr a chyfle i weld y grefft o hollti a naddu llechen. Pan ofynnwyd am wirfoddolwr i ymgymryd â'r gwaith hollti neidiodd Dylan Efans, pwy arall dwad?, i'r adwy.

“Y byd i’n disgyblion a disgyblion i’n byd”

PRIF DDISGYBLION 2015/16



Prif Ddisgybl

Enw llawn: Alaw Prys Huws
Yn hanu o: Bethel
Ysgol Gynradd: Bethel
Hoff beth: Cerddoriaeth/ Chwaraeon
Hoff fwyd: Pitsa
Hoff fiwsig: Yws Gwynedd
Hoff raglen deledu: Friends / Prison Break
Cas beth: Gwyllanod!



Dirprwy Prif Ddisgybl

Enw llawn: Gwenllian Williams
Yn hanu o: Bethel
Ysgol Gynradd: Bethel
Hoff beth: Cymdeithasu gyda ffrindiau, Karate, Ffliwt.
Hoff fwyd: Lasagne a tsips.
Hoff fiwsig: Pop
Hoff raglen deledu: East Enders / Neighbours
Cas beth: Sbeidars!



Prif Ddisgybl

Enw llawn: Rhydian Owen Price
Yn hanu o: Bethel
Ysgol Gynradd: Bethel
Hoff beth: Tennis a Piano
Hoff fwyd: Afalau a Grawnwin
Hoff fiwsig: Popeth
Hoff raglen deledu: Friends



Dirprwy Prif Ddisgybl

Enw llawn: Dafydd Llewelyn
Yn hanu o: Ceunant
Ysgol Gynradd: LLanrug
Hoff beth: Sgio / Chwarae Pêl droed
Hoff fwyd: Pitsa
Hoff fiwsig: Coldplay/ Stereophonics/Bandma
Hoff raglen deledu: Top Gear (pan oedd yn bodoli) / Match of the Day



Prom





Llongyfarchiadau calonnog i Elfed Morgan Morris o Llechwedd, Deiniolen, ar ennill gradd Meistr mewn Astudiaethau Addysg o Brifysgol Bangor. Mae'r teulu oll yn falch iawn o'i lwyddiant.

Ysgol Gwaun Gynfi

Bu 18 o blant yr ysgol yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yng Nghaerffili yn ystod hanner tymor y Sulgwyn. Cafodd pawb amser da iawn a mwynhau perfformio. Diolch yn fawr iawn i Mrs Eleri Bean a Mrs ab Elwyn am hyfforddi'r plant.

Bu Osian Trefor Hughes yn cystadlu hefyd ar yr Unawd Cerdd Dant i blant Bl 5 a 6. Llongyfarchiadau mawr iddo yntau hefyd.

Bu plant Blwyddyn 6 yn cymryd rhan mewn Gŵyl Gyfeiriannu ym Mharc Padarn ar ddydd Gwener, Mehefin Sed.

Astudio'r ardd a'r trychfilod

Mae holl blant Cyfnod Sylfaen Ysgol Gwaun Gynfi - y Dosbarth Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blynnyddoedd 1 a 2 - yn astudio'r ardd y tymor yma. Maent i gyd wedi bod allan yn astudio gardd yr ysgol droeon ac mae ganddynt erddi bach eu hunain a thrychfilod yn y dosbarthiadau yn ogystal.

Dathlu 150 o flynyddoedd ers i'r Cymry cyntaf ymfudo i Batagonia yn Ysgol Gwaun Gynfi.

Drama Y Mimosa

Buom yn ffodus iawn i gael gweld drama yn ymwneud â'r ymfudwyr cyntaf o Gymru i Batagonia yn neuadd yr ysgol.

Yn ogystal, cyn-ddisgybl o'r ysgol, sef Martin Thomas, oedd yn chwarae'r brif ran. Dysgodd y plant lawer am y fordaith gyntaf yma i Batagonia.

Drama Robert Recorde - Cymro a Mathemategydd

Bu Dion Davies yn portreadu Robert Recorde yn yr ysgol. Y fo oedd y gŵr cyntaf i ddyfeisio symbol hafal ac un o'r rhai cyntaf i ddefnyddio symbolau adio a thynnu. O Ddinbych Y Pysgod yr oedd Robert Recorde (1512-1558).

Llongyfarchiadau hefyd i Merin Lleu Caradog Rhyd o Ddinorwig ar ei lwyddiant yn ennill y wobwr gyntaf yn yr unawd pres ag am gystadlu yn y Rhuban Glas, mae hefyd wedi bod yn brysur iawn efo'r band hynod boblogaidd Band Pres Larreggub sydd wedi bod yn teithio Cymru yn ystod yr haf. Llongyfarchiadau hefyd i Seindorf Arian Deiniolen ar ddod yn ail yn y gystadleuaeth i fandiau dosbarth 2.

Dymuniadau gorau a llongyfarchiadau i bobl ifanc y pentrefyn dilyn llwyddo gyda'u arholiadau yn ddiweddar, ac i'r rheini fydd yn symud ymlaen i ddilyn cyrsiau coleg yn y dyfodol.

Diolch Dymuna Maureen, 32 Stryd Newydd, ddiolch o galon i'w theulu, cymdogion a ffrindiau ymhell ac agos am yr holl anrhegion, arian a blodau a'r llu cardiau a dderbyniodd ar ei phen-blwydd yn 75 oed. Diolch o galon i bawb

Dymuna Dafydd Evans (Dafydd Twins), Alun, Wendy a Sioned ddiolch i'w ffrindiau am yr holl gareidgrwydd a ddangoswyd iddynt tra bu Dafydd yn yr ysbyty yn cael llawdriniaeth. Diolch am yr holl alwadau ffôn a chardiau a dderbyniwyd. Hoffai ddiolch i staff ward Enlli am eu caredigrwydd a'u gofal ohono. Diolch yn fawr iawn.

Llongyfarchiadau i Elin Dafydd am basio Gradd 1 Theori Cerdd. Diolch i Dylan Williams am ei hyfforddi. Llongyfarchiadau iddi hefyd am basio ei Gradd 3 ymarferol gyda Eb Tenor Horn. Diolch i Gavin Saynor am ei hyfforddi.



Eisteddfod Genedlaethol Meifod

Llongyfarchiadau i Osian Trefor Hughes ar ennill y wobwr gyntaf ar yr Unawd Alaw Werin dan 12 oed yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Mae Osian yn cael ei hyfforddi gan Rhian Roberts a hwn oedd y tro cyntaf iddo fod ar lwyfan y Genedlaethol yn canu'n unigol. Da iawn ti.

Diolch Dymuna teulu y ddiweddar Eleanor May Williams, gynt o 41 Rhydfadog, ddiolch o galon am bob arwydd ogydymdeimlad a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth ac am y rhoddion hael tuag at Gronfa Dementia. Carem ddiolch am y gofal arbennig gafodd Eleanor yng Nghartref Plas y Bryn, Bontnewydd. Diolch i'r Parchedig Carol Roberts ac i Dr William Munro am eu gwasanaeth yn Eglwys Crist Llandinorwig, ac i'r Ymgymerywyr Dylan a Meinir Griffith am eu gofal trylwyr ddydd yr angladd.

Dymuna Annie Williams (Roberts gynt) ac yn wreiddiol o Ddeiniolen, ddatgan ei diolch i'r teulu a ffrindiau am bob rhodd a dymuniad da a dderbyniwyd ar achlysur ei phen-blwydd yn gant oed ar 8fed o Awst. Mae ar hyn o bryd dan ofal caredig Ward

Conwy Ysbyty Gwynedd lle y cynhaliwyd gwledd arbennig ac mae hi yn gwerthfawrogi yr holl drefnu a fu gan y staff.

Roedd Annie yn ferch i'r diweddar John a Margiad Elin Roberts (New Street a Pentre Helen) ac yn unig chwaer i saith o frodyr. Gadawodd Ddeiniolen yn 14eg oed i weini ar Ynys Môn. Priodi gyda'r diweddar John Williams ac ymgartrefu ym Mhentraeth ac yn ddiweddarach yn Llansadwrn. Mam i Margaret a'r diweddar William a anwyd yn New Street. Mae yn nain i bump, hen nain i naw ac yn hen, hen nain i ddwy.

Bydd wrth ei bodd yn cadw i fyny â hanesion o'r hen ardal drwy gyfrwng yr Eco.

Llongyfarchiadau i Iwan Price, 1 Hafod, Clwt y Bont ar basio ei radd BA Addysg Gorfforol gyda anrhydedd ail ddosbarth o Brifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant.

Oedfaon Gorffiennaf

- | | |
|---------|--|
| 6ed - | Y Parch John Pritchard am 10 |
| 13eg - | Mr Alun T. Williams am 5 |
| 20fed - | Y Parch John Pritchard - 10 y bore a 5 yr hwyr |
| 27ain - | Y Parch Cath Williams - am 5 |

Bydd yr ysgol Sul yn ail ddechrau Medi 13eg am 10.15. Croeso cynnes i bawb

BYSUS RHIWLAS

BYSUS BACH A MAWR
ar gael ar gyfer pob math o LOGI PREIFAT
Nosweithiau allan, Partion, Triplau ac ati.
Am wasanaeth personol a thelerau rhesymol-
Ffoniwch (01248) 361044



D. P. OWENS RHIWLAS

MODURDY'R WYDDFA

Snowdon Garage

LLANBERIS

M.O.T
GWASANAETH
CYNNAL A CHADW

(01286) 870225



Parhad DEINIOLLEN

Merched y Wawr



Bowllo Deg.

Yn dilyn llwyddiant dau dîm o'r gangen yn yr ornest Bowllo Deg Rhanbarth Arfon yn Glasfryn ar y 13eg o Chwefror bu'r ddau dîm yn cynrychioli'r Rhanbarth yng ngornest y Gogledd ar y 12fed o Fehefin. Er na ddaeth llwyddiant y tro hwn cafwyd noson dda a llawer o hwyl.

Taith i'r Ysgwrn.

Ar y 27ain o Fehefin i gloi gweithgareddau'r tymor am eleni, cafwyd taith i Borthmadog ac yna i'r Ysgwrn yn Nhrawsfynydd. Cafwyd croeso cynnes a hwyliog gan Mr Gerald Williams gan roi hanes hen dŷ ei berthynas

enwog, Hedd Wyn. Roedd yn bnawn hynod ddifyr. I orffen y daith, cafwyd lluniaeth yng Ngwesty Oakley Arms, Maentwrog, diolch yn fawr iawn i Jackie am yr holl waith trefnu trylwyr

Bydd y gangen yn ail ddechrau ar y 21ain o Fedi yn Nhŷ Elidir am 7.00. Mi fydd y swyddogion yn aros yr un peth am eleni sef: Llywydd: Ann Lloyd, Trysorydd: Margaret Roberts, Ysgrifennydd: Iona Richards. Croeso cynnes i bawb. Llongyfarchiadau i Ioan Benjamin Bean ar basio arholiad gradd 2 Euphonium. Dal ati. Diolch i Gavin Saynor am ei ddysgu.



Glyn Rhonwy

Efallai eich bod yn ymwybodol fod Snowdonia Pumped Hydro (SPH) wedi derbyn caniatâd cynllunio i adeiladu cynllun pwmpio a storio 49.9MW yng Nglyn Rhonwy a Chwarel Fawr (Cefn Du), ac y byddant yn rhoi cais arall i mewn yn fuan i Arolygiaeth Gynllunio y DU, i adeiladu cynllun 99.9MW llawer mwy. Mae Storfa Bwmp yn ffordd o ddefnyddio trydan pan mae o'n rhad a digonedd ohono i bwmpio dŵr i lyn uwchlaw ac wedyn ei ollwng drwy dyrbeini i gynhyrchu trydan pan fo'r galw yn uchel.

Bydd SPH yn creu dwy argae fawr ar dop a gwaelod y tyllau chwarel yng Nglyn Rhonwy gyda dŵr yn cylchdroi rhwng y ddwy. Dydi cysylltiad â'r grid cenedlaethol ddim wedi cael ei gwblhau eto. Bydd dŵr dros ben o'r cynllun yn cael ei bwmpio i Lyn Padarn sy'n Ardal o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI) ac sydd hefyd â statws o fod yn saff i ymdrochi ynddo oherwydd purdeb y dŵr.

Nodir mewn adroddiad newydd bo'r sector twristiaeth antur werth dros £450 miliwn y flwyddyn i Gymru. Mae'r rhan fwyaf o'r arian yma yn dod o Eryri, a mae hyn heb gynnwys yr anturiaethau newydd fel "Zip lines" ayyb.

Yn ôl phob tebyg, rydym ddigon bodlon i beryglu hyn am ychydig geiniogau fydd ar gael gan gwmnïoedd technoleg ynni, er enghraifft, mae'r datblygiad newydd yng Nglyn Rhonwy (SPH) werth £600,000 y flwyddyn i Gyngor Gwynedd mewn trethu business, a £375,000 i'r gymuned. Dim ond £10,000 y flwyddyn, (llai nag un y cant o'r elw) mae SPH am gynnig pan mae'r cynllun yn weithredol. Wrth gwrs, bydd rhwng 20 a 30 o swyddfeydd parhaol ar gael i'r rhai lwcus!, (tua'r un maint a sydd yn cael eu cyflogi gen SPAR Llanberis!), ond faint o swyddi sydd mewn perygl os bo'r ymwelwyr yn dewis mynd i rhywle sydd heb ddrw adeiladu ac heb lyn farwaidd?

Lle mae llais y gymuned yn hyn i gyd? Pam nad oes cyfarfodydd agored wedi bod i drafod y datblygiad? Wrth gwrs, mae'r datblygwr wedi creu sioe ardderchog i werthu'r prosiect tra roeddynt yn 'ymgyngori' a'r cymuned (mae'n amlwg mai eisiau cael sylwadau er mwyn cryfhau eu achos reoddynt mewn gwirionedd, nid ymgyngoriad teg ydoedd), gyda dim ond un ochr i'r darlun ar gael. Nid oeddynt wedi son dim am y ffrwydro (hyd at 300 o ddyddiau, - gan ddibynnu sut maent yn tyllu). Doedd dim son am swm mae'r tyrbinau a'r pwmpio am achosi, (yn enwedig yn ystod y nos), (gofynnwch wrth bobl sy'n byw yn Ninorwic, fe allant ddweud pa mor swllyd yw hi yno gyda'r nos).

Roedd Glyn Rhonwy yn cael ei ddefnyddio i ddympio ffrwydrion ac arfau cemegol yn ystod y rhyfel. Nid oes unrhyw gynllun wrth gefn os bo Tabun yn cael i aflonyddu (bom nwy nerfau tebyg i Sarin yw Tabun). Ni all yr RAF/Mod hyd yn oed warantu fod Glyn Rhonwy yn glir ohono ar ôl glanhau y safle yn y 70au. Mae yna felly risg bach ond dychrynlyd o arfau cemegol yn gollwng. Beth am y risg i'r tor goch, y dyfrgwn, yr ystlymod, y brain goesgoch a'r hebogiaid tramor (er bod Sian Williams (NRW) wedi dweud eu bod yn nythu fel arfer, anwiredd yw hyn, nid ydynt wedi nythu eleni fel yr arfer....ysgwni pam!! Beth am y perygl i'r llyn drwy algaidd os bo tymheredd y dŵr yn codi fymryn, neu os bo unrhyw lygredd cudd yn cael ei ryddhau mewn camgymeriad?

Dydi'r ffordd mae'r cynllun yn mynd i gael ei gysylltu â'r grid cenedlaethol ddim eto wedi ei benderfynu. Mae'n ddrud iawn i roi ceblau o dan y ddaear felly efallai mai'r unig opsiwn yw ceblau uwchben. Bydd hyn yn golygu cais cynllunio ar wahân ac felly nid ydym yn siŵr a fydd hyn yn digwydd

Pam ddim ond Cyngor Cymunedol Waunfawr ddaru roi adroddiad i'r ymgyngoriad cwmpasu, pam ddaru Cyngor Cymunedol Llanberis ddim gwneud y run fath? Mae Cyngorau Cymunedol fel arfer yn cynrychioli llais y gymuned, nid gwneud penferfyniadau ar eu rhan heb drafodaeth, - a thrwy eu tawelwch, maent i weld i fod yn cefnogi'r datblygiad!

Mae angen i'r Gymuned ddod at ei gilydd i drafod beth sydd orau i bawb sy'n byw yma. Heb hyn, dim ond unigolion gyda lleisiau cryf a datblygwyr sy'n gweld cyfle i greu elw hawdd enillith. Ar yr union amser lle ddylai pawb fod yn gweithio gyda'i gilydd, mae'r pysgotwyr yn cwyno am y defnyddwyr hamdden, mae bobl sy'n poeni am y bywyd gwyllt yn cael eu herio gan y pobl sy'n meddwl am yr ychydig swyddfeydd, a toes neb yn gweld y darlun mawr. Rydym yn cecru ymysg ein gilydd tra bod rhywun o'r tu allan, sy'n poeni dim am yr ardal yma, yn ennill miliynau ar ein traul a'n risg ni.

Yn y cyfamser, mae Eryri yn allforio egni ac ynni sydd heb i'w ddefnyddio, ac wedyn, yn talu mwy na neb am bob uned o egni rydym yn i ddefnyddio! Sut mae hyn yn bod?

Pa gostau cudd eraill fydd cyn ddiwedd y gwaith adeiladu a chyn diwedd y cynllun? Ydi bobl lleol yn barod i dalu'r costau yma tra bod SPH yn gwneud miliynau heb boeni dim am ein hamgylchedd?

Os ydych yn bryderus am y cynllun hwn ac am ragor o wybodaeth, gwelwch:

- www.glynrhonwy.org
- Twitter: @glynrhonwy
- ymunwch â ni ar Weplyfr

R Williams ar gyfer y Grwp Cymunedol, Pryder ynglyn a Glyn Rhonwy?

Elusen Cronfa Goffa R. H. Owen

GWAHODDIR CEISIADAU AM GRANTIAU

Gwahoddir ceisiadau oddi wrth ymgeiswyr cymwys o ddalgylch **YSGOL BRYNREFAIL** am **GRANTIAU** o'r gronfa uchod ar gyfer hyrwyddo addysg bellach

Am ffurflen gais anfonwch at
Yr Ysgrifennyddes-
Mrs. Heather Jones
3 Maes Padarn, Llanberis
LL55 4TE

DYDDIAD CAU
Hanner Nos
30 Medi 2015

cronfarhowen@aol.co.uk

Llwyddiannau lleol yn Eisteddfod Genedlaethol Maldwyn a’r Gororau.



Ieuenctid y fro ddaeth i’r amlwg eleni, a’r mwyafrif ohonynt yng nghystadleuthau cerddorol yr Ŵyl. Mae’n glod i draddodiad cerddorol yr ardal, ac yn enwedig i hyfforddwyr sy’n rhoi o’u hamser i annog ac ysbrydoli.

Enillwyd dau Ruban Glas: Owain Llestyn o Fethel ar yr Unawd Offerynnol dan 16 oed (yn dilyn ei lwyddiant ar yr Unawd Pres), a Math Roberts o Gwm y Glo ar yr Unawd Offerynnol rhwng 16 ac 19 oed (yn dilyn ei lwyddiant ar yr Unawd Piano). Bu Math yn llwyddiannus hefyd ar y Ddeuawd Offerynnol Agored (gyda Gwenno Morgan o Fangor) ac ar Unawd ar y Delyn Deires.

Daeth Merin Lleur o Ddinorwig yn gyntaf ar yr Unawd Offerynnol rhwng 16 ac 19 oed, ac Osian Trefor Hughes o Ddeiniolen yn gyntaf ar yr Alaw Werin dan 12 oed.

Roedd y ddau fand lleol yn cystadlu ar ddechrau’r Eisteddfod. Daeth Deiniolen yn ail yn yr ail ddosbarth, a Llanrug yn ail o drwch blewyn (un marc yn unig) yn y brif adran.

Roedd Sion Elwyn Hughes o Fethel, ac Iwan Williams o Lanberis yn aelodau o’r triawd piano buddugol.

Daeth yr unig lwyddiant ym myd llefaru i Leisa Gwenllian o Lanrug, a



Ddydd Sadwrn, 8fed Awst, enillodd y triawd piano ‘Tra Bo Tri’ gystadleuaeth y Grŵp Offerynnol Agored yn Eisteddfod Genedlaethol Maldwyn a’r Gororau, a’r tri yn perfformio ar yr un piano! Mae Siôn Elwyn Hughes o Fethel ac Iwan Wyn Williams o Lanberis yn ffrindiau ers eu dyddiau yn Ysgol Brynrefail, a chyfafu’r ddau â Daniel Sajko tra oeddynt yn y Brifysgol ym Mangor, lle cafodd ef y syniad i ddod â’r ensemble at ei gilydd a chystadlu yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Ninbych yn 2013. Mae’r tri yn athrawon wrth eu gwaith, Iwan yn



enillodd yn yr oedran rhwng 12 ac 16.

Angylion Kelly o Fethel (ond gydag aelodau o wahanol bentrefi’r fro) oedd yn fuddugol ar y Dawnsio Disgo, gan guro’r hen elyn o Amlwch. Llongyfarchion hefyd i Genod Gwyrfai o’r Waunfawr ar eu hymddangosiad cyntaf ar lwyfan y Brifwyl, ac i’r holl unigolion eraill o’r fro a oedd yn aelodau o wahanol gorau a phartion o’r tu allan i’n hardal ni.

Yn yr adrannau gwaith cartref, Dafydd Guto Ifan, Penisarwaun oedd yn fuddugol ar Ddetholiad o erthyglau Bob Owen, Croesor, ac Alys Jones, Bethel, yn fuddugol ar Gasgliad o Chwe Cherdd ar gyfer plant cynradd.

Dyna gynrychiolaeth felly o bron bob pentref yn y fro. Edrychwn ymlaen am ymweliadau yr un mor llwyddiannus ym Mynwy y flwyddyn nesaf!

Ond cyn ffarwelio â’r Eisteddfod Genedlaethol am eleni, dylem hefyd fel ardal ymfalchio a diolch i John Elwyn Hughes o Fethel am olygu cyfrol y Cyfansoddiadau a Beirniadaethau dros yr holl flynyddoedd. Ymddeolodd o’r swydd hon eleni ar ôl deng mlynedd ar hugain o waith cydwybodol, glân a graenus.



athro yn Ysgol Gynradd Bodedern, Daniel yn athro cerdd yn Ysgol John Bright, Llandudno, a Siôn yn athro Cymraeg yn Ysgol Tryfan. Perfformiodd y triawd dri darn gan wahanol gyfansoddwyr ac roedd y rhaglen yn cynnwys ‘Le Secret’ gan Gaultier, ‘Romance’ gan Rachmaninov ac ‘Anyone for Tennis?’ gan Michael Cornick. Cafodd y grŵp ganmoliaeth uchel ac yn ôl y panel beirnaid, roeddent yn llwyr haeddu’r wobr gyntaf. Bydd y tri phianydd yn parhau i gyfarfod ac yn anelu at gystadlu eto yn Eisteddfod Genedlaethol y Fenni, 2016, yn ogystal â pherfformio mewn ambell gyngerdd yn y cyfamser.

Cau Capel y Bryngwyn

Ddiwedd Awst cauodd Capel y Bryngwyn, Llanrug ei ddrysau am y tro olaf. Yma ceir adroddiad am hanes y capel gan Megan Roberts.

O edrych ar fedyddiadau eglwys Pendref, Caernarfon, mae'n amlwg mai yno yr oedd Annibynwyr Llanrug yn aelodau. Dyma gofnod bedydd – Robert, son of Evan Roberts, Shoemaker, Llanryg by Gaenor his wife, born Febry. 8Th 1787 was baptised Febry12th.

Tua'r flwyddyn 1825 y dechreuwyd cynnal oedfa gan yr Annibynwyr yn Llanrug a hynny mewn tŷ yn Rhesdai Bryngwyn. Tenau oedd y boblogaeth a bach oedd y nifer a ddeuai i addoli. Blwyddyn bwysig yn hanes yr achos oedd 1830. Yn y flwyddyn honno ordeiniwyd myfyriwr ieuanc, Mr Daniel Jones, o athrofa Neuaddlwyd, yn weinidog ar eglwys Moriah, Waunfawr. Dechreuodd ddod i bregethu yn rheolaidd at y ddiadell fach yn Rhesdai Bryngwyn a symblwyd y gynulleidfa i feddwl am adeiladu capel. Erbyn 1833 roedd capel bychan a thŷ capel wedi ei godi ar dir a berthynai i hen elusen blwyfol yn agos i Bant y Bryngwyn. Teimlai'r bobol hoffter a balchder o'r cysegr bach diaddurn gyda'i lawr pridd a galwyd ef wrth yr enw Dura. Dyma sut y canodd Joseph Williams amdano. (Mab ydoedd i John Williams o Borth Llechog, Sir Fôn, a adawodd waddol o £100 i Gapel y Bryngwyn yn 1912).

Hen gapel bach y Bryngwyn
Diaddurn oedit ti;

Y pridd oedd y llawrlenni
Os da y cofiaf fi;
Tair ffenestr fach oedd ynddo
Dim llawer mwy na'm llaw,
Canwyllau i'w oleuo
I'm cof mor rhyfedd ddaw.

Hen gapel bach y Bryngwyn
Rhyfeddaf dan y nef;
Llyfr Hymnau nid oedd yno
Roedd Beibl ynddo ef;
Mi glywais yno ganu
Nes synnu llawer un
Emynau bendigedig
Nes nefoleiddio dyn.

Y tebygrwydd yw fod wyth neu naw o hen dai yno pan adeiladwyd Dura – tri neu bedwar yng nghefn y capel a phump yn y ffrynt. Ceir cyfeiriad i'r enw Dura yn y drydedd bennod o lyfr Daniel – 'Gwnaeth y brenin Nebuchadnesar ddelfw aur.... a'i gosod yng ngwastadedd Dura yn nhalaith Babilon.'

Mae Dura yn Hebron erbyn heddiw. Gair o'r iaith Cananeaidd ydyw yn golygu Cartref.

Dyma'r disgrifiad a gofnodwyd am Dura ar y pryd:

'Roedd pulpud yn y talcen nesaf i'r Bryngwyn a'r sedd fawr yn ei ymyl. Wedyn roedd rhan ar ganol y llawr heb seti a'r seti wedyn yn codi yn go serth i'r cefn.'

Ddw flynedd wedi adeiladu Dura, symudodd y Parch. Daniel Jones o'r Waunfawr i Sir Aberteifi. Ymhen pedair blynedd sefydlwyd Thomas Davies yn weinidog yn y Waunfawr ac roedd hefyd i ofalu am Dura. Bu llwyddiant mawr ar ei weinidogaeth ond pan symudodd o'r ardal bu'r capel heb weinidog am naw mlynedd. Yn aml byddai Caledfryn o gapel Pendref yn pregethu yno ac hefyd Y Parch. Hugh Hughes (Tegai) – pregethwr adnabyddus o Bant Ifan.

Y rhwystr mawr yn y blynyddoedd hynny oedd y ddyled – rhywbeth oedd yn destun siarad mewn cynadleddau yn yr ardal. Mae sôn fod y capel wedi cau am amser hyd nes y daeth Owen o Fôn i fyw i'r Tŷ Capel. Yna, yn 1846, symudodd Griffith Thomas, gweinidog Saron, Bontnewydd, i gadw siop ym Mhenisarwaun. Brodor o Rhydlydan ger Pentrefoelas ydoedd ac yn 1852 penderfynodd gymryd gofal yr eglwys yn Dura. Symudwyd baich y ddyled ac ychwanegwyd at nifer yr aelodau. Collwyd rhai ohonynt yn 1854 pan adeiladwyd capel y Tabernacl yng Nghwm y Glo. Teimlodd yr ardal yn Llanrug ddylanwad grymus y Diwygiad ac yn Awst 1859 cyfarfu trigolion Llanrug a Chwm y Glo ar Groeslon Marc i gynnal cyfarfod gweddi a barodd drwy'r nos. Cerddodd nifer o aelodau Dura i ben Cefn Du i gynnal cyfarfod gweddi arall a bu adfywiad mawr yn y capel bach. Diaconiaid y capel ar y pryd oedd Richard Griffith, Bryngwyn (y codwr canu hefyd); Owen Parry, Tanybron a Griffith Owen, Tŷ Capel. Eraill oedd yn amlwg yng ngweithgareddau'r capel oedd Richard Evans, Pant y Bryngwyn; Thomas a Richard Pritchard, Cae Rhydau; Henry Griffydd, Bryn Cwil; Thomas Abram, Ardd Gron; John Owen, Ty'n y Mynydd; Richard Williams, Crawiau, sef Dr Dick – cymeriad hynod iawn; Richard Owen Pritchard a theulu John Williams, Sir Fôn. Cynhelid Ysgol Sul lewyrchus yn Dura o'r cychwyn a chaed llawer o hwyl gyda Dr Dick yn holi'r plant.

Erbyn 1870 roedd Dura yn rhy fach i'r gynulleidfa ac aed at i godi capel newydd. Credai rhai y dylent llynu wrth yr hen lecyn ac eraill y dylent adeiladu yn nes i lawr y ffordd. Addawodd teulu Tyddyn Mawr ddod i'r safle newydd ac felly y bu. Prynwyd y darn tir lle saif y capel heddiw. Cynhaliwyd y cyfarfod agoriadol ar y 15fed o Orffennaf 1870, gyda'r gweinidog, y Parch. Griffith Thomas yn pregethu.

Parhaodd y Parch. Griffith Thomas i ofalu yn ffyddlon am yr achos hyd ei farw ar y 16eg o Fawrth 1879, yn 73 oed. Rhoddodd 27 mlynedd o wasanaeth heb gyflog o gwbl a chladdwyd ef rhwng dau ddrws y capel. Claddwyd Margaret, ei wraig, yno hefyd ac adeiladwyd cofgolofn ar ei fedd gan ei gyfeillion.

Yn 1882 unodd Y Bryngwyn gyda'r Tabernacl, Cwm y Glo, o dan weinidogaeth Y Parch. T.J. Teynon. Disgrifir ef fel 'cristion annwyl, caredig, gŵr llednais, gonest a defnyddiol ei wasanaeth i'r eglwysi a'r cylch'. Bu yn gysur mawr i deuluoedd a gollodd anwyliaid yn ystod y rhyfel 1914-1918. Ar nos Sul, Mehefin 29 1919 darllenwyd ei ymddiswyddiad. Treuliodd 38 mlynedd fel gweinidog yn y capel a gadawodd gymunrodd o £100 i'r Bryngwyn.

Dilynwyd ef gan Y Parch. Hawen Rees ac erbyn hyn roedd y capel wedi prynu tŷ capel, sef Afallon, Pontrhythallt. Byr fu ei dymor yn Y Bryngwyn a gadawodd o fewn tair blynedd i weinidogaethu yn Llanbedrog. Cyn ymadael, rhoddodd gwpan fedydd hardd yn anrheg i'r capel a rhoi arni 'rhodd gan Alaw Non' – sef ei ferch. Yn ddiweddar rhoddwyd y gwpan i Plas Garnedd, Llanfairpwll, lle y treuliodd Alaw Non ei blynyddoedd olaf. Yn 1924 roedd 135 o aelodau yn perthyn i'r capel a 50 o blant.

Ordeiniwyd Y Parch. Christmas Williams o Goleg Caerfyrddin yn weinidog ar Y Bryngwyn a'r Tabernacl, Cwm y Glo yn 1927. Yr un amser yr oedd y Parch. Robert Thomas, Dolafon, yn rhannu'r baich yn y capel gan ei fod ef yn weinidog heb ofal eglwys.

Blwyddyn i'w chofio oedd 1931 pan gafwyd golau trydan am y tro cyntaf yn Y Bryngwyn. Mae olion yr hen lampau paraffin yn dal i'w gweld o amgylch y set fawr. Bu'r Parch. Christmas Williams yn weinidog gofalus a mawr ei barch am 17 mlynedd a'r flwyddyn olaf cyn iddo ymadael i Bentre Tŷ Gwyn, Sir Aberteifi, bedyddiodd nifer o blant. Ei ddyletswydd olaf oedd fy medyddio innau ar noswyl Nadolig yr un flwyddyn.

Bu'r capel heb weinidog hyd 1950 pan ddaeth y Parch. Richard Jones o Goleg Bala Bangor yn weinidog ar y ddwy eglwys. Brodor o Ffestiniog ydoedd a chymerai diddordeb mawr yn ieuencid y capel. Roedd cryn lewyrch ar yr Ysgol Sul, y Band of Hope a'r Eisteddfod yn y cyfnod hwn. Symudodd i'r de yn 1954 ond cadwodd gysylltiad clos iawn a'r capel ar hyd ei oes. Dymunodd gael pregethu yn Y Bryngwyn i ddathlu 40 mlynedd yn y Weinidogaeth. Braint oedd ei weld yn gwasanaethu yn angladd Mrs Annie (Inigo) Jones, Eilionwy, a hynny mewn cadair olwyn. Cofiaf yn dda hoelion wyth y Capel – Joseph Hughes, Cwm y Glo – saer coed wrth ei alwedigaeth a oedd yn byw o fewn taffiad carreg i'r capel Annibynwyr yno ond a fynnai gerdded dair gwaith y Sul i'r Bryngwyn. Gŵr arall hynod o annwyl oedd William Jones, Tegfryn (Wil Waun) sef tad yng nghyfraith Y Parch. O.M. Lloyd. Dyma ran fechan o'r deyrnged a roddwyd iddo gan swyddogion y capel pan fu farw yn 1955.

'Ni chafodd unrhyw eglwys erioed amgenach arweinydd nag ef. Bu ei ddoethineb yn gyfryw a gadwodd heddwch a thangnefedd i deyrnasu o dan pob amgylchiad yn yr Eglwys. Dyma'r patrwm gorau o'r gwir Gristion y gellir meddwl amdano. Bydd ei enw'n aros yn berarogl ar lwybrau'r fro a'i goffadwriaeth yn fendigedig yn i'r.'

Go brin y gall unrhyw berson ddweud iddo fod yn aelod mewn capel am dros gan mlynedd. Cafodd Mrs Annie Jones (neu Mrs Inigo fel y gelwid hi) ei bedyddio yn y Bryngwyn lle bu yn aelod hyd nes y bu farw yn 102 oed. Ni fyddai byth yn colli oedfa na'r Ysgol Sul ac fe fyddai ei llais wrth ganu yn swyno pob pregethwr. Gwyddai rif pob emyn yn y Caniedydd ac yr oedd ei gwybodaeth o'r Beibl yn drylwyr. Roedd muriau'r capel yn llawn dagrau ar dydd ei hangladd.

Fel Mrs Annie Jones cafodd fy nhad (T.W. Thomas) ei fedyddio yn Y Bryngwyn lle bu yn aelod gydol ei oes. Y capel a'r cartref oedd canolbwynt ei fywyd. Bu yn ddiagon ac yn ysgrifennydd y capel am bron i hanner can mlynedd ac yr oedd yn fwy na hapus i dderbyn pob cyfrifoldeb arall a ddeuai i'w ran.

Un arall o gymwynaswyr Y Bryngwyn oedd y Parch. R. Lloyd Mathews, Bethel. Gan nad oedd gweinidog ar ôl 1954, ef fyddai yn bedyddio a gwasanaethu mewn priodasau ac angladdau.

Trydanwr oedd Owen Thomas, Min y Rhos, ac ef fu yn gyfrifol am osod gwres trydan yn y Capel. Fel ei dad,



William Thomas, yr oedd yn godwr canu ac yn ddiagon yn Y Bryngwyn. (Cadwodd William Thomas adroddiadau blynyddol y capel o 1903 hyd 1968 a bu rhain yn help imi gyda'r adroddiad yma.)

Yn 1966 cafwyd organ newydd. Roedd yr 'Harmonium' wedi mynd yn hen a phrynwyd organ Hammond newydd. Mae'r offeryn hwn wedi bod yn werthfawr iawn i'r gwasanaethau ar hyd y blynyddoedd – er, ar fwy nag un achlysur, bu'n rhaid defnyddio'r hen harmonium oherwydd nam trydanol yn yr ardal.

Roedd pryder am ddyfodol y capel yn y saithdegau gan fod nifer yr aelodau wedi lleihau a doedd fawr o lewyrch ar y cyfarfodydd. Ond daeth tro ar fyd a chroesawyd aelodau newydd brwdfrydig i'r Bryngwyn. Rhoddodd Idwal a Bethanne Williams a Goronwy ac Olwen Hughes ddeugain mlynedd o wasanaeth i'r capel. Yn 1978 dewiswyd pum diacon newydd – Robert Griffith, John Rowlands, Gareth Roberts ac Idwal Williams ac, am y tro cyntaf erioed yn hanes y capel, merch, sef Olwen Hughes. Cafodd Gareth Roberts ei benodi yn ysgrifennydd ac Idwal Williams yn drysorydd. Ffynnodd yr Ysgol Sul wrth i nifer o blant yr ardal fynychu'r cyfarfodydd.

Tua canol y saithdegau bu tân yn y capel a difrodwyd nifer o'r seddau yn y cefn. Bu'r adeilad yn mudlosgi am bron i wythnos heb i neb fod yn gwybod ac roedd y waliau, y nenfwd a phopeth arall o fewn y capel wedi ei orchuddio â huddug du. Gyda help llawer o'r aelodau, ynghyd â chwmni glanhau diwydiannol, adferwyd y capel ac ar ôl treulio wythnosau yn addoli yn y Sefydliad agorwyd y capel ar ei newydd wedd.

Yn 1985, yn dilyn adroddiad gan yr ysgrifennydd, penderfynwyd cael un oedfa a hynny am 4 ypnawn. Bu'r drefn newydd yn llwyddiant a pharhaodd felly tan y llynedd. Cawsom oedfaon o safon teilwng gyda'r Parch. Ronald Williams, Salem, Caernarfon, yn gyfrifol am y gwasanaeth cymun. Mae ein diolch yn fawr iddo am fod yn gefn i ni dros y blynyddoedd. Cawsom y fraint o groesawu Y Parch. a Mrs Gwilym Parry i'n plith wedi iddynt ymgartrefu yn Llanrug.

Ond – daeth tro ar fyd. Y llynedd, cymerwyd y penderfyniad anodd ond anorfod, i ddirwyn yr achos i ben a chau'r capel. Roedd yr aelodau i gyd yn rhan o'r penderfyniad yma, yn ôl trefn yr Annibynwyr. Peth anodd a thrist fydd cau drws y capel am y tro olaf gan wybod na fydd addoli eto yn Y Bryngwyn.



Bessie, Mair Varney a Mona Griffith

Hafan Elan

Roedd hi'n bawn arbennig iawn yn Hafan Elan ar yr 2il o Orffennaf. Daeth yn amser i ffarwelio â Bessie Costello fel warden arbennig iawn am bron i chwe blynedd. Trefnwyd gwledd ar ei chyfer a daeth y trigolion a ffrindiau o'r pentref at ei gilydd i dalu diolch iddi am ei holl ofal ohonynt ar hyd y blynyddoedd.

Daeth nifer o staff Cartrefi Cymunedol Gwynedd yno hefyd ac fe dalodd Mr Brian Griffith deyrnged arbennig i Bessie. Cyflwynwyd rhodd iddi ar ran pawb a derbyniodd dusw o flodau gan Mrs Mair Varney a Mrs Mona Griffith.

Ar ôl y gwledda cafwyd adloniant gan y grŵp Soggy Bottom Boys ac ymunodd pawb yn y canu.

Dymunwn ymddeoliad hapus iawn i Bessie gan ddiolch iddi am ei holl wasanaeth i'r ardal. Hefyd carem ddiolch i Joyce a Sylvie, dwy o ffrindiau Bessie, am ddod i helpu bob dydd Mawrth i weini yn y Clwb Cinio.

Ysgol Gynradd Llanrug

Llongyfarchiadau gwresog i Beca Fôn Parry o flwyddyn 4 am ddod yn drydydd yn y ras redeg 75m i ferched blynyddoedd 3 a 4 ym Mabolgampau'r Urdd.

Llongyfarchiadau hefyd i Oliver Roberts (blwyddyn 5), Catrin Williams (blwyddyn 6) a Mali Brookes (blwyddyn 5) am eu llwyddiant yng nghystadleuaeth y pentref i greu poster i hybu pobl i gadw Llanrug yn bentref glân. Daeth Oliver yn gyntaf, Catrin yn ail a Mali yn drydydd yn y gystadleuaeth.

Bu disgyblion blynyddoedd 3 a 4 yn astudio'r thema Coedwig Wyllt yn ystod tymor yr haf. Roeddent oll wrth eu bodd pan gafwyd taith i warchodfa natur Nant Y Pandy yn Llangefni i astudio'r holl fywyd gwyllt oedd yn byw yno a diolch yn fawr i Mr Gareth Evans am eu harwain ar eu taith.

Yn ôl yr arferiad, cafodd disgyblion blynyddoedd 5 a 6 gyfle i ymweld â Chaerdydd yn ystod tymor yr haf. Bu'r trip yn llwyddiannus iawn a mwynhaodd y plant y profiad yn arw.

Cafodd disgyblion y dosbarth

meithrin fore o hwyl ar gae'r ysgol ar ddiwedd tymor yr haf. Roedd pawb wedi gwirioni ac yn mwynhau bwyta hufen iâ a chwarae ar gastell neidio. Mwynhaodd disgyblion y dosbarth derbyn drip i Pili Palas a chafodd disgyblion blynyddoedd 1 a 2 amser da yn yr haul yn Greenacres. Diwedd gwyh i flwyddyn ysgol arall i bob un ohonynt.

Wrth i flwyddyn ysgol arall ddirwyn i ben, cafwyd gwasanaeth arbennig i ffarwelio â holl ddisgyblion blwyddyn 6 ac rydym yn dymuno'n dda i bob un ohonynt yn yr ysgol uwchradd. Rhaid fu ffarwelio hefyd â Mrs Maureen Pierce. Ar ôl 31 mlynedd o wasanaeth arbennig rhwng ei chyfnod yma yn yr ysgol a gyda'r ysgol feithrin gynt, ymddeolodd Mrs Pierce o'i swydd fel cymhorthydd yn y dosbarth meithrin ar ddiwedd tymor yr haf. Rydym yn hynod ddiolchgar am ei hymroddiad dros y blynyddoedd. Bydd colled fawr ar ei holl ac rydym yn dymuno'r gorau iddi yn y dyfodol.

Rydym hefyd yn dymuno'n dda i Miss Karen Evans. Mae Miss Evans wedi gweithio yn

yr ysgol fel cymhorthydd ers sawl blwyddyn bellach ond ym mis Medi bydd yn cychwyn ar bennod newydd, anturus yr ochr arall i'r byd wrth iddi fynd draw i grwydro Awstralia am flwyddyn. Dymunwn yn dda hefyd i Miss Alaw Roberts. Mae Miss Roberts wedi bod yn aelod gwerthfawr o staff yr ysgol eleni dros gyfnod mamolaeth Miss Catrin Jones. Diolch o galon iddi hi ac hefyd i Mrs Rhian Roberts a Miss Mandy Roberts am eu cyfraniad gwerthfawr i'r ysgol eleni.

Diolch Dymuna Huw, Iwan, Dylan a theulu'r ddiweddar Mair Roberts, Cilygors, Ffordd yr Orsaf, Llanrug, ddiolch o galon i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth. Roedd Mair yn wraig, mam, nain, hen nain a chwaer arbennig. Bu farw ar 29 Gorffennaf yn Ysbyty Gwynedd yn dilyn gwaeledd hir. Roedd yn 88 oed.

Bu'r angladd ar 7 Awst yng Nghapel y Rhos, Llanrug, ac yna yn amlogfa Bangor. Diolch i'w gweinidog, y Parchedig Marcus Robinson, am wasanaethu ac i'r Parchedigion Jim Clarke a Reuben Roberts am gynorthwyo yn y capel. Diolch hefyd i Ceris Gruffudd, Penrhyncoch, cefnder i Huw am ei wasanaeth fel organydd yn y ddau le. Diolch arbennig i gwmni E.W. Pritchard, Llanberis, am drefniadau trylwyr a hwylus ac i Cerid MacKinnon am baratoi te yn festri Capel y Rhos.

Mae'n diolch yn fawr i'rgofalwyr cartref am y blynyddoedd o ofal a dderbyniodd Mair yng Nghilygors. Diolchwn yn arbennig hefyd i feddygon a staff Meddygfa Waenfawr am eu cymorth a'u gwasanaeth parod.

Dymunwn ddiolch yn ddiffuant i deulu, ffrindiau a chymdogion am eu cyfraniadau hael tuag at ymchwil Alzheimers.

Profedigaethau

Cydymdeimlwn yn fawr ag Ellen Roberts, 7 Afon Rhos, yn ei phrofedigaeth fawr a sydyn yn colli ei mam, Mrs Margaret Roberts, gweddw Ifan (Ianto) Roberts. Rydym yn meddwl amdanoch, Ellen a'r teulu.

Ar ôl brwydro am amser maith, bu farw Mrs Joan Williams, Llwyfor, yn dawel yn Ysbyty Eryri. Bu yn byw gyda Elaine a Gwilym am flynyddoedd a chadw cysylltiad hefo

cwsmeriaid y siop.

Roedd yn berson mor weithgar ar hyd ei hoes yn tyfu llysiau a ffrwythau gyda'i gŵr, Alwyn, a phan adeiladwyd y tŷ, fe ddywed ei fod ar ben y 'patch' nionod! Byddai yn gyfrifol am drefnu y Carnifal, gyda'i ffrindiau ac wedyn swper i henoed y pentref. Roedd wedi bod yn gogyddes yn yr ysgol ac yn adnabyddus i blant y pentref. Wedi ymddeol a bod braidd yn gaeth i'w chartref fe fyddai yn gwneud nionod picl yn ôl y tunelli, cacennau brith, mins peis a sawl peth arall. Gwraig arbennig iawn.

Bydd colled enfawr i'r teulu, Pat, Vera, Keith, Elaine a'u teuluoedd a fu mor ofalus ohoni ar hyd y blynyddoedd. Cydymdeimlwn â chwi oll yn ddiffuant iawn.

Ar ôl salwch bu farw Mrs Mair Roberts, gwraig annwyl y Parch Huw Gwynfa Roberts. Daeth y ddau i fyw drws nesaf i'r teulu yma yn Llanrug i gael gofal tyner ganddynt. Cydymdeimlwn yn arw iawn â'r teuluoedd, Iwan a Gwenda a'r teulu, Dylan, Eleri a'u teulu hwythau a'r teulu agos yn yr ardal. Cydymdeimlwn â chwi oll yn eich profedigaeth.

Cydymdeimlwn â Mrs Eirwen Rowland, Llys Forgan, Ffordd yr Orsaf, yn ei phrofedigaeth o golli ei brawd.

Hefyd cofiwn am Ann Jones, 36 Glanffynnon a'r teulu oll yn eu profedigaeth fawr o golli mam a nain annwyl, sef Mrs Mari Evans, Caernarfon. Meddwl amdanoch yn eich colled.

Cydymdeimlwn yn fawr â Mrs Nancy Hughes, Stad Talybont, yn eich colled fawr yn dilyn marwolaeth ei merch, Betty yng Nghaernarfon. Anfonwn ein cofion diffuant atoch a'r teulu yma yn lleol ac yn Canada ac Awstralia.



POSH PAWS

TACLUSO CWN
Busnes Newydd Lleol

PRYNHAWNIAU neu NOSWEITHIAU 4-10

DYDD SUL 8yb-4yp
Gwasanaeth Casglu a Danfon

Ty'n Llan Uchaf, Llanddeiniolen
(01248) 671382 • 07935324193
ebost- juliaposhpaws@btinternet.com

Parhad LLANRUG



Y Band Llongyfarchiadau mawr iawn i'r Band ar eu llwyddiant yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Meifod.

Pleser yw gweld cymaint o bobl ifanc yn aelodau. Maent yn ymarfer yn galed a rheolaidd, sy'n gallu bod yn anodd i'r ifanc a chymaint o waith ysgol a choleg ganddynt hefyd. Ardderchog iawn.

Llwyddiant yr Eisteddfod Owain Llestyn Thomas sydd yn brif chwaraewr corn i'r band ar ennill yr Unawd Pres o dan 16 oed ac yn ennill y Rhuban Glas Offerynnol o dan 16 oed. Math Roberts ar ennill yr Unawd Piano ac yn dilyn yn ennill y Rhuban Glas Offerynnol rhwng 16-19 oed. Hefyd ar ennill yr Unawd Telyn Deires a'r Ddeuawd Piano.

Leisa Gwenllian yn ail ar adrodd rhwng 12-15 oed. Cystadleuaeth Grŵp Offerynnol, enillodd Tra Bo Tri - Siôn Elwyn, Iwan Wyn a Daniel.

Cylch Meithrin Llanrug Cynhaliwyd noson hwyliog o 'Gyri a Chwis' yn Nhafarn y Glyntwrog ar 9 Mai er mwyn casglu arian. Diolch i bawb a gefnogodd y noson ac i dafarn y Glyntwrog am gefnogi'r digwyddiad.

Os oes plant dwyflwydd a hanner o fis Medi ymlaen am fynychu'r Ysgol Feithrin, gall y rhieni gysylltu â'r Arweinyddes, Mrs Nicola Griffith Jones, am fwy o fanylion.

Cylch Ti a Fi Bydd y Cylch yn cael ei gynnal ar ddydd Gwener o 9.15 - 10.45 y bore yn Ffestri Capel y Rhos o fis Medi ymlaen.

Diolchiadau

Fe ddymuna Ellen Roberts a'r teulu, 7 Afon Rhos, ddiolch yn fawr iawn am bob arwydd o gydymdeimlad ddangoswyd tuag ati ar achlysur ei

phrofedigaeth yn colli ei mam, Mrs Margaret Roberts. Diolch o galon i bawb.

Fe ddymuna Bessie Costello, cyn-warden Hafan Elan, ddiolch yn ddiffuant iawn i bawb yn Hafan Elan ac yn y pentref am y parti a'r dymuniadau da.

Babis Newydd

Ganwyd Guto Llywelyn i Christy a Huw, London House, mae yn frawd bach i Moli ac yn wŷr i Angela a Bryn. Llongyfarchiadau mawr.

Merch fach ddaeth i Lowri ac Adrian, Bod Ifor, Rhys Rhythallt, a'i henw yw Mared Fflur. Pob dymuniad da iddynt. Mae yn wyres i Caryl, gorwyres i Rhydwen Pugh ac mae Mrs Dilys Hughes yn hen, hen nain iddi.

Llongyfarchiadau mawr i Hannah Benson, Rhys Rhyddallt, ar enedigaeth mab bach, Joseph (Joey). Mae'r teulu i gyd wedi gwirioni hefo fo!

Priodasau

Priododd Gerallt Hughes, mab Dylan a Jackie, Crawiau, gyda Stephanie yng Nghaerlle maent wedi ymgartrefu. Pob dymuniad da iddynt.

Dymuniadau gorau hefyd i Dr Ddewi Thomas a Sarah ar achlysur eu priodas. Mae Dewi yn fab i Dafydd a Gwenda Thomas, Coedlys, Ffordd Glanmoelyn. Pob dymuniad da iddynt hwythau.

Llongyfarchiadau mawr hefyd i Owain a Donna, Pant Tirion, ar achlysur eu priodas hwythau. Gobeithio eich bod wedi cael amser bendigedig hefo'r teulu dros y môr.

Arholiadau

Hoffem longyfarch plant a phobol ifanc y pentref ar eu llwyddiant yn yr arholiadau ysgol a choleg. Dymuniadau gorau i chi i gyd i'r dyfodol.

Priodas Aur Dymunwn yn dda i Megan a John Owen, 4 Nant y Glyn, fydd yn dathlu eu Priodas Aur ar Fedi 18fed.

Mae Doug a Joan, Llwyn, Ffordd Glanffynnon hefyd wedi dathlu eu Priodas Aur ar Awst 27ain.

Pen-blwydd Arbennig

Bydd Mrs Joan Williams, Yr Allt, yn dathlu eu phen-blwydd yn 90 mlwydd oed yn ystod mis Medi. Llongyfarchiadau mawr i chi.

Sefydliad y Galon Caernarfon ar Cylch

Yn ystod mis Mehefin bu aelodau Merched y Wawr a chyfeillion eraill yn casglu arian o ddrws i ddrws i gronfa Sefydliad y Galon. Diolch o galon i bawb a fu'n casglu a hefyd i bentrefwyr Llanrug a Tan y Coed am gyfrannu mor hael. Cyfanswm y casgliad oedd £864.85c.

Brysiwch Wella Cafodd Charlotte Evans, Nant y Glyn, ddamwain yn ddiweddar ac mae yn awr yn gaeth i'r tŷ am gyfnod. Brysia wella, Charlotte. Da yw deall fod Mr Gwyn Davies, Ffordd yr Orsaf, yn

gwella yn dda yn dilyn ei lawdriniaeth ddiweddar. Braf yw eich gweld yn ôl yn cerdded o amgylch y pentref.

Cofion at Goronwy Williams, Llys Ifor, Ffordd yr Orsaf, sydd yn cael cyfnod anodd ac i mewn ac allan o'r ysbyty. Brysiwch wella.

Mae Mary Roberts, Bedw Gwynion, yn gwella wedi torri ei braich hefyd.

Plaid Cymru Enillwyr Clwb Cant Awst: 1. Einir Gwyn, Cwm-y-glo; 2. Olwen Hughes, Eithinog, Llanrug.

Noson yng nghwmni Sian Gwenllin, nos Fercher, Medi 16 am 7.30 yn y Sefydliad Coffa. Cyfle i gyfarfod ein ymgeisydd ar gyfer y Cynulliad.

Croeso cynnes i bawb.

Merched y Wawr Llanrug


Bydd y tymor newydd yn cychwyn ar nos Fawrth, 8fed o Fedi am 7.30 yn y Sefydliad Coffa. Noson yng nghwmni'r Parch Marcus Robinson ar y thema 'Caplaniaeth yn ei holl amrywiaeth'.

Croeso cynnes iawn i aelodau hen a newydd.



Cyflwyno i'r band.

Yn y llun dangosir Dirprwy Faer Caernarfon yn cyflwyno strapiau dal offerynnau i'r band. Mae'r band yn derbyn arian yn flynyddol o cronfa Cyngor Tref Caernarfon, ond eleni, oherwydd i'r Band arwain orymdaith gwasanaeth Sul y Cofio trwy Caernarfon, penderfynodd Cyngor Tref roi rhodd ychwanegol iddynt. Mae gwahoddiad nawr i'r Band arwain yr orymdaith yn flynyddol. Yn y darlun o'r chwith i'r dde - Dyfrig Owen, (arweinydd Band Iau), Paul Hughes (arweinydd y prif Band) Tomos Speddy (offerynnnydd taro - percussionist) a Dirprwy Faer Tref Caernarfon, Cynghorydd Brenda Owen. Hefyd yn bresennol yn ystod y cyflwyniad oedd Cynghorydd Tudor Owen a Katherine Owen, Clerc y Cyngor Tref.



E. W. Pritchard

Trefnwyr Angladdau

CENTRAL GARAGE

LLANBERIS

FFON- (01286) 870202

DODREFN PERKINS

2 Ganolfan Pen-Ilyn, Caernarfon, Ffôn (01286) 676040

Hefyd yn-16 Stryd Porth Mawr. Caernarfon Ffôn (01286) 673535

Pob math o ddodrefn tŷ

Cegin • Ystafell Fyw • Lloft

PRISIAU CYSTADLEUOL

Carpedi • Llenni a Lloriau Pren

Ffon- (01286) 676040

Parhad LLANRUG

Llewod Llanrug



Dyma holl griw oedran cynradd Llewod Llanrug yn dilyn eu cyfarfod gwobrwyio ddiwedd y tymor ar gae Nant y Glyn.

WAVELL'S
Bryn Ac Angela Williams
London House
LLANRUG
PEN
CIGYDDION
Y FRO
YR WYN LLEOL MWYAF BLASUS
SELSIG CARTRE
CIGOEDD PAROD I'W BWYTA
ARCHEBION AR GYFER Y RHEWGIST
MYNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!!
(01286) 673574

APS - Hogia'r llwybr



Dyma'r hogia wnaeth osod llwybrau newydd ac adeiladu dau gwt ymochel i'r timau ar faes pêl-droed Llanrug. Ewch draw i'w gweld, mae nhw'n wych!



ORIEL CWM

CWM Y GLO

Gwasanaeth fframio lluniau
o bob math
ar gael ar y safle
PRISIAU RHESYMOL
Arddangosfa o luniau
Gwreiddiol gan artistiaid lleol

Richard S. Humphreys

Ffon/ Ffacs-
(01286) 870882



Alun Ffred Jones
Aelod Cynulliad
Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AC mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth
8 Stryd y Castell Caernarfon LL55 1SE
01286-672076
neu
70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR
01248- 372948
alunffred.jones@cymru.gov.uk



Gwobrau ATC.

Llongyfarchiadau i William Jones, Hen Gapel ar ennill dwy darian yn noson wobrwyo ATC Eryri yng Nghaernarfon yn ddiweddar. Enillodd y darian gyntaf am fod a'r presenoldeb gorau yn holl weithgareddau'r gangen, a'r ail, sef Tarian y Cadeirydd yn gydnabyddiaeth am ei holl waith yng ngweithgareddau'r gangen dros y tymor. Mae cangen Eryri o'r ATC yn cyfarfod yn y Barics yng Nghaernarfon, ac i'r rhai sydd efo diddordeb, gellir cysylltu ar www.aircadetscaernarfon.org



Hywel Williams
Aelod Seneddol
Etholaeth Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth
8 Stryd y Castell Caernarfon LL55 1SE
01286-672076
neu
70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR
01248- 372948
williamshy@parliament.uk



O'r Cynghorau

**Cyngor Cymuned
Llanberis**

COFNODION MEHEFIN 2015:

Cofnodion Cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd yn Y Ganolfan, Llanberis, ar nos Iau y 18fed o Fehefin 2015 am 7 yr hwyr.

PRESENNOL ac YMDDIHEURIADAU:

Ward Padarn: Emlyn Baylis (Cadeirydd), Eurig Druce, Gwilym Evans, Olwen Gwilym, Derek Jones, Dafydd Roberts, Helen Sharp.

Ward Peris: Iola Owen Hefyd yn bresennol: Dei Tomos (Clerc).

Ymddiheuriadau: Barry Davies, Iwan Harding, Bethan Holding, Gwenda Roberts, Trystan Thomas.

CADARNHAU COFNODION:

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod nos Fawrth y 12fed o Fai, 2015 fel rhai cywir.

MATERION YN CODI O'R COFNODION:

1. Y Wefan:

Roedd pethau'n symud ymlaen yn araf. Dywedodd y Clerc fod angen bywgraffiad byr o'r Cynghorwyr a chyflwynodd ffurflen ar gyfer hynny ac i'w dychwelyd iddo cyn gynted a phosib.

2. Cysgodfan Bws Newydd:

Adroddwyd fod rhyw amryfusedd ar ran y cwmni wedi golygu oedi, roedd yr archeb wedi ei hanfon a'i derbyn ar y 24ain o Fawrth. Yn awr roedd addewid y byddai'n cyrraedd yn ddi-ffael ar y 24ain o'r mis hwn. Roedd yr ymgymwrwr wedi addo na fyddai'n hir cyn y byddai'n ei gosod yn ei lle.

3. Yswiriant / Asedau ac Eiddo:

Adroddodd y Clerc iddo newid cwmni ar gyfer yswiriant y Cyngor. Roedd wedi arbed dros £600 ar bris y llynedd. Dywedodd ei fod hefyd wedi ail brisio eiddo'r Cyngor, ynghyd â chynnwys rhai pethau nad oedd wedi eu rhestru yn y gorffennol, gan gynnwys y Gofeb a Parc Bach. Roedd gwerth y cyfan o ran yswiriant dros chwarter miliwn.

4. Mân Gymorthdaliadau:

Cytunwyd i ystyried hynny yn mis Medi. Yn y cyfamser roedd y Clerc wedi paratoi ffurflen i'r Cymdeithasau a fydd yn gwneud cais. Bydd angen defnyddio'r ffurflen i wneud cais eleni gan amgau y gyfriflen banc ddiweddaraf ynghyd â chopi o'r adroddiad blynyddol olaf.

5. Damwain:

Cyfeiriwyd at y ddamwain ger y Rhaeadr pan foddwyd dau nofiwr yn ddiweddar. Holwyd oni ddylai fod rhybudd ar y safle i nodi fod y pwll yn beryglus. Cynigiodd EB gael gair a'r tîrffeddiannwr ac fe fyddai'r Clerc yn chwilio hefyd am gyngor.

MATERION ERAILL:

1. Arwyddion:

Roedd y Clerc wedi cysylltu ag un o swyddogion CG ynglŷn â'r uchod, ac wedi addo anfon rhestr ato o'r arwyddion heb ganiatâd oedd yn britho'r pentref. Ychwanegwyd rhai enwau at y rhestr.

2. Banc a'r Llyfrgell:

Mae pryder am ddyfodol y Banc a'r Llyfrgell.

Dywedwyd y byddai cau y Banc yn golygu cryn anhwylostod i lawer, ac er fod modd rhoi arian yn y Swyddfa Bost i'w drosglwyddo i gyfrif ym Manc HSBC, roedd amryw o'r farn nad oedd y sefyllfa yn y Swyddfa Bost newydd yn ddelfrydol o bell ffordd. Roedd y lleoliad yn gyfyng yn siop Spar a dim modd cael unrhyw breifatrwydd yno wrth drafod busnes. Penderfynwyd anfon gair at HSBC i nodi siom y Cyngor fod y gangen i gau.

Ansicr mae'n ymddangos yw dyfodol y Llyfrgell wrth i CG ystyried dyfodol yr holl wasanaeth ar draws y sir. Hyd y gwyddom ni chafwyd canlyniad yr ymgynghoriad ar ddyfodol y gwasanaeth, nid oes dim y medr y Cyngor hwn ei wneud ar hyn o bryd ond mae angen cadw golwg a bod yn barod i ymateb. Trafodwyd nifer o syniadau posib pe bai'r Llyfrgell yn cau.

CYNLLUNIO:

1. Cyngor Gwynedd:

C15/0460/15/LL - cais llawn i godi tŷ newydd ar ffurf byngalo dormer 3 ystafell wely, creu mynedfa gerbydol newydd a gwaith cysylltiol - Bryn Padarn, 19 Rallt Goch, Llanberis.

Edrychwyd yn fanwl ar y cynllun, roedd y Clerc wedi edrych hefyd ar y safle, ac er fod y ffordd yn gul roedd y cynlluniau yn caniatáu parcio oddi ar y ffordd i'r tŷ newydd arfaethedig a'r tŷ presennol. Dim gwrthwynebiad.

ADRODDIAD ARIANNOL BLYNYDDOL - 2014/2015:

Cyflwynwyd mantolen llawn o dderbyniadau a gwariant ynghyd â dadansoddiad llawn o wariant yn ôl adrannau gan gymharu'r hyn a wariwyd yn y deuddeg mis diwethaf â'r blynyddoedd blaenorol.

Derbyniwyd y cyfrifon. Roedd rhain eisoes wedi eu harchwilio a'u harwyddo gan J.D. Roberts, Caernarfon, yr Archwiliwr Mewnol. Arwyddwyd y Ffurflen Flynyddol a baratowyd gan Swyddfa Archwilio Cymru, gan Gadeirydd y cyfarfod a'r Clerc. Diolchwyd i'r Clerc am ei drylwyredd a'i ofal.

LLWYBRAU A'R FYNWENT ag ati:

a) Y Fynwent:

Adroddwyd fod y maen a syrthiodd wedi ei ail godi. Mae cyflwr y Fynwent yn hynod foddhaol er fod un neu ddau o bethau ar feddi nad ydynt yn cael eu caniatáu.

Adroddodd y Clerc fod DWL wedi torri gwair y llwybrau. Gofynnodd am wybodaeth os oedd unrhyw le o bwys a ddylai gael toriad ychwanegol. Adroddwyd fod angen edrych ar y giât ar ben llwybr y stepiau ger Rhesdai Eilian. Soniwyd fod angen edrych ar gyflwr y llwybr sy'n mynd o ymyl Gwesty Gwêl y Llyn.



O'r Cynghorau

**Cyngor Cymuned Llanrug
a Chwm y Glo**

Nos Fawrth 16 o Fehefin 2015

Croesawyd Mr Faris Raouf o gwmni Cymru1Cyfyngedig, sef y person sydd wedi bod yn gyfrifol am greu gwefan y Cyngor, a'r Cynghorydd Rhys Parry sy'n aelod newydd o'r Cyngor.

Cyflwyniad o'r wefan:

Ar ran Cymru1 Cyfyngedig, diolchodd Mr Raouf am y cyfle i gael creu gwefan i Gyngor Cymuned Llanrug a Chwm y Glo. Aeth â'r aelodau drwy'r wefan gan amlinellu gwahanol gategorïau ynghyd â'r wybodaeth am y Cyngor sydd ar ein gwefan. Eglurodd ymhellach ei fod wedi bod yn waith pleserus i'w wneud ac ei fod ef a'r Clerc wedi gweithio yn galed i greu y safle.

Arwyddion cadw Llanrug yn daclus / baw ci

Adroddwyd fod Cyngor Gwynedd am wneud copiau o bosteri enillwyr cystadleuaeth a drefnwyd i blant Ysgol Gynradd Llanrug er mwyn eu rhoi i fyny o gwmpas y pentref. Hefyd fod y Cyngor Sir yn edrych ar y sefyllfa baw ci a byddant yn cysylltu â ni maes o law. Eglurwyd fod Cyngor Llanengan wedi derbyn cyfrifoldeb am osod a gwagio biniau baw ci yn yr ardal. Penderfynwyd i gysylltu â Chyngor Llanengan i holi mwy am y drefn.

Elusennau'r Cyngor

Penderfynwyd i gysylltu â'r Comisiwn Elusennau i geisio gwybodaeth o beth yw ein hawliau parthed yr elusennau yma.

Balansau

Adroddwyd fod balansau yn y gyllideb a ddygwyd ymlaen o 2014/2015 a bod angen penderfynu ar y defnydd gorau o'r arian yma. Gofynnwyd am awgrymiadau gan yr aelodau ar sut i wario'r arian.

Cais Cynllunio

Bwlch, Cwm y Glo,

'Doedd dim gwrthwynebiad i'r cais ar gyfer dymchwel estyniadau presennol ynghyd a chodi estyniadau cefn ac ochr.

Cae Chwarae Pwll Moelyn, Llanrug

Adroddwyd nad oedd dim o'r gwaith a addawyd gan Gymdeithas Tai Gogledd Cymru wedi gychwyn ers i aelodau o'r Cyngor gyfarfod â Swyddogion y Gymdeithas.

Penderfynwyd ysgrifennu at y Gymdeithas i ofyn pryd bwriedir cychwyn y gwaith.

Cae Chwarae Nant y Glyn, Llanrug

Adroddwyd nad oedd y biniau ar y Cae Chwarae yn cael eu gwagio ac, yn sgil hyn, fod poteli ac ysbwriel ar draws y cae.

Penderfynwyd cysylltu â Chyngor Gwynedd i ofyn iddynt ddod i wagio'r biniau.

Llwybrau Cyhoeddus

Adroddwyd fod angen ychwanegu llwybr rhif 24 at y rhestr o lwybrau cyhoeddus i'w torri gan ein ymgymwrwr.

Llwybr ger Glanffynnon/Afon Rhos

Adroddwyd fod y coed wedi gordyfu ger y llwybr ac yn creu perygl tân yn yr ardal.

Penderfynwyd: Derbyn yr adroddiad ac i gysylltu â'r ymgymwrwr torri coed am bris.

Adroddiad Pentrefi – Llanrug

Adroddwyd fod nifer o blant o Ysgol Brynrefail i'w clywed yn siarad Saesneg oddi amgylch y pentref a bod hyn yn peri pryder i'r aelodau ac byddai'n ddiddorol gwybod pam, yn enwedig o gofio fod Llanrug wedi dod allan y pentref gyda'r canran uchaf o siaradwyr Cymraeg yn y cyfrifiad diwethaf.

Penderfynwyd cysylltu â'r Ysgol i holi a oedd ystadegau ar gael ar gyfer y nifer o siaradwyr Cymraeg yn yr ysgol dros y blynyddoedd.

Y Fynwent

Adroddwyd fod cwyn wedi dod i law fod baw ci wedi ei ddarganfod ar fedd yn y fynwent yn ddiweddar.

Penderfynwyd cadw golwg ar y sefyllfa.

ECO'r Wyddfa

O'r Cynghorau Cyngor Llanddeiniolen

7fed o Gorffennaf 2015

Yn bresennol: Y Cadeirydd Miss Phyllis Ellis a'r Cynghorwyr, Rhian Evans, Carolyn Roberts, Elfed Williams, Idris Thomas, Hefin Williams, a Sion Jones, Richard Ll. Jones, Geraint Elis, Phyllip Jones a Gwilym Williams.

Braf oedd gweld Richard Ll Jones yn ôl yn ein cwmni yn dilyn llawdriniaeth ac rydym oll yn falch o'i weld yn gwella.

Gweddi. Offrymwyd y weddi agoriadol gan y Parch. Idris Thomas.

Ymddiheuriadau. Geraint Hughes, Jane Pierce Jones, Rachel Williams, Aled Green.

Cofnodion cyfarfod 2il Fehefin 2015.

Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir.

Materion o'r cofnodion

Materion ariannol – Cyfrifon wedi eu derbyn yn ôl o'r archwilydd mewnol a bellach wedi eu gyrru i'r archwilydd allanol.

Nodwyd fod y cyngor wedi bod yn hael gyda rhoddion i gymdeithasau o fewn y plwyf, a bydd hyn yn cael ei drafod yn nghyfarfod Hydref o'r cyngor fel arfer. Gyda arian yn lleihau, a'r toriadau yn bygwth, bydd rhaid manylu a meddwl lle mae rhoddion yn mynd. Gyda chymdeithas yn dibynnu, bydd rhaid blaenoriaethu.

Materion Ffyrdd

Pont Injan Brynrefail – Uned Strwythurau eisoes wedi archwilio'r wal, ac nid ydynt yn pryderu yn ormodol am ei chyflwr. Felly, mae'n isel ar eu blaenoriaethau.

Pant yn y ffordd ger Erw Fair – Mae'r ffordd wedi ei thrwsio, ond mae angen archwilio'r systemau draenio yn yr ardal, rhag ofn eu bod yn ddiffygiol ac wedi cyfrannu at y diffyg.

Racca i Cwt Band – Nid yw'r ffordd hon yn flaenoriaeth y flwyddyn ariannol yma. Fodd bynnag mae yn parhau ar eu rhestr ffyrdd sydd angen sylw, a bydd yn cael ei hystyried ar eu rhaglen waith trwsio parhaol y flwyddyn ariannol nesaf.

Esboniodd Idris Thomas bod swyddog o Gyngor Gwynedd wedi cytuno i ail beintio llinellau gwyn ar y lôn ac ymdrin a mannau gwanaf ar yr ochrau. Clerc i gysylltu yn ôl yn esbonio hyn.

Cyfeiriodd Phylip Jones at y pant ger y gwaith dŵr ar lôn Marchlyn byth wedi ei drin. Llythyr eto i Wynedd.

Biniau Baw Cŵn – Derbyniwyd llythyr gyda map o leoliadau biniau baw cŵn sydd yn cael eu gwagio yn wythnosol fel isafswm. Maent am newid y bin sydd yn Allt Ddu am fin aml bwrpas. Cyfeiriwyd bod yr ardal ddigon prysur i allu gwneud defnydd o'r bin presennol ac un aml bwrpas yn ychwanegol. Llythyr yn nodi hyn i Wynedd.

Parth Cyflymder - Mae'r Parth cyflymder 20 mya wedi ei osod o flaen yr ysgol yn Neiniolen. Derbyniwyd llythyr o Wynedd yn dweud mai o flaen ysgolion yn unig mae hyn yn cael eu gosod ar hyn o bryd, ac efallai nes ymlaen, y rhoddir ystyried i Frynrefail.

Llyfrgell – Derbyniwyd llythyr yn gwadd cynrychiolydd i weithdy yn dilyn sesiynau galw heibio yn gyhoeddus, gan obeithio bydd ffrwyth y gweithdy yn cyfrannu at adroddiad i'r cyngor. Gofynnwyd hefyd oedd posib cael gwybod pam nad yw plant yr ysgol yn mynychu'r llyfrgell o'r ysgol gyda athrawon bellach.

Diolch – Derbyniwyd llythyr gan Osian Thomas yn gwerthfawrogi cyfraniad y Cyngor Cymuned i Fand Ieuenctid Seindorf Deiniolen.

Nodwyd fod y Cyngor yn hynod falch o lwyddiant y band o dan arweiniad Osian Thomas, ac o weld yr hanes yn y papur bro lleol. Llongyfarchiadau Mawr iddynt a gobeithio y daw mwy o lwyddiant i'r bobol ifanc yma yn ystod y flwyddyn.

Gohebiaeth a materion eraill.

Dŵr Cymru – Derbyniwyd llythyr yn amlinellu cynllun i ddarparu llithrfa ar gyfer cychod rhwyfo, hwylio a caiacs, yn safle y lagŵn. Gyrrwyd llythyr yn gofyn am sylwadau ar hyn:

Oes yna bosibilrwydd o lygru y llyn pan ddaw i ddiwedd ei oes a dim yn cael ei ddad-gomisiynu?

Oes trefniadau i godi ambarcio yn y lagŵns, fel a godir ar ochor Llanddeiniolen i'r llyn?

Pwy fydd yn gyfrifol am gynnal a chadw?

Ond, bellach mae'r cynllun yma wedi ei basio, felly bydd rhaid disgwyl i weld a fydd yn llwyddiant.

Llythyr Parchu Pentir – Derbyniwyd llythyr yn amlinellu cais i geisio gostwng y cyflymder ar yr A4244 trwy Bentir. Nid yw yr ardal yma o fewn ein plwyf ni, serch hynny cytunwyd bod y lôn yn eithriadol o beryglus ac ar ffin ein plwyf ni.

Cynllunio

Ceisiadau a dderbyniwyd:

Blaen y Waun, Deiniolen – Lledu Ffenestr llawr cyntaf

Greenwood – Cais ar gyfer gosod paneli pv sy'n ddiwygiad i'r rhai a ganiatawyd yn wreiddiol.

Coed Rhydu – Derbyniwyd adroddiad yn cadarnhau fod yr Apêl wedi penderfynu gwrthod y cais.

Diolchwyd i bawb a fu yn bresennol yn y cyfarfodydd, ac i bawb a fu yn gysylltiedig â'r frwydr. Cytunwyd fod y broses wedi ehangu gwybodaeth ynglŷn â'r broses cynllunio a bod y profiad wedi bod o fantais i Gyngorwyr Cyngor Cymuned.

Llwybrau

Cafwyd manylion dau berson oedd yn fodlon ymdrin â thorri tyfiant y llwybrau. Penderfynwyd cysylltu yn syth iddynt ddechrau ar y gwaith cyn gynted â phosib.

Mae llwybr troed heibio Capel Sardis wedi ei gau oherwydd i ran o wal ddod i lawr ar y llwybr. Mae gwaith trwsio yn mynd ymlaen cyn gynted â phosib.

Mae tyfiant ar hyd ochor y ffyrdd wedi tyfu yn ofnadwy ac yn achosi peryg gan fod yn amhosib i yrrwyr ar y ffordd weld yn glir i dynnu allan ar gyffordd ffyrdd. Llythyr i Wynedd.

O gwmpas y Bwrdd

Clwt y Bont – Gordyfiant o goed ger llwybr Bontfelin, Clwt y Bont, mae'n amhosib i neb weld, ac mae peryg o ddamwain. Llythyr i Wynedd


Rhiwlas – Mae angen trin llwybr o Rhiwlas i Fynydd Llandegai – Cysylltu â Chlerc Mynydd Llandegai.

Cyngor Iechyd Cymunedol – Awgrymu gyrru sylwadau i mewn i amlygu pryderon os oes rhai.

Bethel – Mae'n ymddangos fod ceir yn parcio ar ochor lôn yn Tŷ Mawr, lle mae yno gilfan. Ydi posib rhoi llygaid cathod yno i oleuo rhywfaint ar hyn?

Nodwyd bod erthygl yn y Daily Post ynglŷn â newid enw “Yr Hen Ysgol” yn Ninorwig i “Lodge Dinorwig”, a bod graffiti wedi ei beintio ar yr adeilad.

Deiniolen – Mae gordyfiant o goed ger wal i'r dde wrth ddod allan o Rhydfadog. Llythyr i CCG.



GWAITH
COFFAOL
LLANRUG

Ffôn Gwaith
(01286) 672898

Cartref
(01286) 871833
Symudol 07778 127394

Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

Dylan Griffith

Trefnwr Angladdau Annibynnol a Lleol

TROS-Y-WAEN PENISARWAUN

Gwaith Cerrig Beddi
Gwasanaeth Teimladwy a Phersonol
24 Awr y Dydd
Capel Gorffwys Preifat
Yn Gwasanaethu Yr Holl Ardal

Ffoniwch DYLAN ar 01286 871833 (SYMUDOL- 07778127394)

Hefyd




CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA

Cyrhaeddwch Mewn Steil- Mewn Cerbyd Rolls Royce
AR GYFER PRIODASAU, PENBLWYDDI ac ACHLYSURON ARBENNIG ERAILL



Ar ben arall i'r lein



Tomos Morgan
efo'i eog wyth bwys

Yma yn Nyffryn Peris mae pysgota wedi llithro i rhyw drwm-gwsg, ychydig iawn sydd i'w gweld yn troedio glannau Padarn a'r Afon Rhythallt/Seiont. Dwi'n un sy'n teimlo fod difaterwch yr awdurdodau at ffrwythlondeb ein dyfroedd wedi magu rhyw elfen o anobaith ynof na fydd pethau yn gwella. Mae'n amlwg fod nifer helaeth gyda'r un feddylfryd.

Er i rhyw lygedyn o obaith ddisgleirio ar wastadedd Stablau yn nechrau'r tymor mae pethau i weld wedi llithro i anobaith unwaith eto. Dyma'r tro cyntaf mewn cof i neb fod wedi gweld eog o gwbl, a hithau nawr yn troi at ddiwedd Awst. Mae bygythiadau gan Gyfoeth Naturiol Cymru y bydd yn rhaid dod â rheolau llym i fodolaeth i warchod yr eog, ac nid yn unig ar y Seiont. Y cwestiwn mawr sydd yng nghefn fy meddwl yw - pwy goblyn sydd i fod gyda chyfrifoldeb o dan ddeddfau gwlad i warchod a datblygu pysgodfeydd. Mae'r dyletswydd yma'n cael ei lwyr esgeuluso gan yr awdurdod yma fel ag yr oedd gan ei ragflaenwyr. Dwi ynghlwm â gweinyddu pysgota yn y fro ers 1979 a gallaf wir ddweud nad oes dim byd ond rhwystrau wedi eu rhoi yn ein ffordd fel cymdeithas i geisio gwella safon ein dyfroedd.

Er ein bod mewn rhyw gyfnod go dywyll mae'n rhaid dal i ymdrechu drwy ryw ffordd neu gilydd. Daw cyfle yn ddiweddarach yr wythnos yma, sef dydd Iau 20ed Awst, pan ddaw'r dyletswydd arna i dywys un o brif swyddogion pysgodfeydd CNC o amgylch yr ardal a dangos iddo faint o golled i'r dalgylch yw colli Llyn Peris a'r holl afonydd a mannau claddu drwy adeiladu gorsaf Dinorwig. Os bydd yn cydnabod hyn yna bydd rhyw lygedyn o obaith i ni allu gwrthdroi'r penderfyniad gwallgof o wahardd stocio cywion eog a brithyll drwy Gymru. Gwreiddyn y penderfyniad syfrdanol yma oedd bod yn bosib gwella cynefinoedd a thrwy hyn byddai'r fagwrf naturiol yn fwy effeithiol na stocio artiffisial. Mae synnwyr yn hyn, wrth gwrs, ond sut mae'n bosib gwella cynefin a'i gydnabod fel iawn am golli Peris, Hwch, Dudodyn a'r Bala fel magwrf. Os daw rhywun â chynllun i'r perwyl yma yna fe fydd gwobr dda yn dod i'w ffordd. Ond cofiwch, os am bendroni ar ddatblygu cynllun i wella'r cynefinoedd, bydd yn rhaid ystyried fod datblygiad yn prysur gasglu'r caniatâd i adeiladu goraf bŵer ddŵr yng Nglyn Rhonwy. Mae caniatâd wedi ei roi yn barod i'r adeiladu yn ogystal â thynnu dŵr o Lyn Padarn, ond does dim caniatâd wedi ei roi eto, fodd bynnag, i ollwng dŵr yn ôl i'r llyn. Drwy gysidro'r holl waith sy'n mynd ymlaen ar Cefn Du - ydi'r caniatâd yma fwy na heb ond yn disgwyl y stamp rwber. Pa effaith gaiff hyn ar beth sydd ar ôl o'r torgoch a gweddill ein pysgodfa. Fe gefais air â rhai o swyddogion CNC drwy holi a oedd rhyw amodau i'w rhoi i'r cwmni i gydweithio ac i warchod ein etifeddiaeth, yn anffodus yr ateb a gefais yn syml oedd 'NA'!

Rhaid imi daflu i ffordd yr iselder sydd fel cwmwl dros yr hen



Carwyn Owen a'i sgodyn pum pwys.

ddyffryn yma a throï at ein dyfroedd eraill yn nyffrynnoedd y Gwyrfaï a Nantlle. Yma, o leiaf, mae pysgota'r llynnoedd sef Cwellyn, Dywarchen, Nantlle a Cwm Silyn wedi bod yn ardderchog drwy'r tymor. Mae Nantlle eleni, mwyaf tebyg, wedi bod ymysg neu o bosib y llyn gorau am frithyll brown gwyllt drwy Gymru. Mae Dafydd Morris, Bethesda yn egluro'n berffaith ogoniant y lle:

Llyn Nantlle

Dyma grud y Creawdwr - a luniodd

ei lannau a'i oerddwr

A'r hafau ddaw â rhwyfwr

I dynnu'r don a'r dŵr

Mae Dywarchen yn eithriadol o boblogaidd drwy'r stocio misol o frithyll yr enfys. Mae nifer fawr yn cael pleser aruthrol o daflu pluen yno, ond rhaid peidio anghofio fod gwaith caled yn mynd ymlaen tu ôl i'r llenni i drefnu a chario allan y stocio a gwarchod y cychod. Mae ein diolchiadau'n fawr i'r ychydig sydd wrthi yn cario allan y gwaith cynnal ar yr holl ddyfroedd. Gwaith caled ac i gyd yn wirfoddol. Diolch yn fawr i chwi oll.

Daeth eog cyntaf y tymor am 8 bwys o Lyn Llam Dda ar y Gwyrfaï i Tomos Morgan, Waenfawr.

Mae'r Llyfni yn cael tymor eithriadol gyda'r gwyniadau, 'Rwyf wedi derbyn nifer o luniau o bysgod braf a physgotwyr hapus - ond y gorau a'r trymaf hyd yn hyn yw un am bron i 5 pwys o Glanrafon gan Carwyn Owen. Ond fel rhyw lygedyn o oleuni ar ddiwedd twnnel tywyll cefais lun o 'wniedyn dau a hanner o Crawia gan John Fraser, Rhes Crawia.

Er fy mod, y mis yma, wedi bod yn eithriadol o negyddol ynglŷn â sefyllfa Llyn Padarn a'r Afon Seiont, ac ar y llaw arall yn eithriadol o bositif ar sut mae sefyllfa ar y Llyfni a'r Gwyrfaï yn gwella. Un peth sydd yn goresgyn hyn i gyd ac yn ein gwneud fel cymdeithas yn eithriadol o ffodus, hyn yw ein bod yn berchenogion ar y rhan fwyaf o'r pysgota sydd dan ein hadain. Mae'r gwaith caled sydd wedi ei wneud dros y blynyddoedd i gyrraedd y sefyllfa yma yn tueddu i gael ei anghofio neu ei ddiystyru. Ond mae ein diolch, nid yn unig fel pysgotwyr, ond fel ardal gyfan i'r rhai a fu'n gweithio a chefnogi'r ymdrech bwysig yma. Yn anffodus mae nifer o rhain dros y blynyddoedd diwethaf wedi ein gadael a phan ddaeth Mehefin eleni fe ymadawodd un arall o'r criw bach yma, sef Bryn Griffiths, Delfryn, Caeathro, yn dilyn cystudd blin. 'Roedd Bryn yn un o'r rhai a oedd yn gweithio yn ddiwyd a thawel tu ôl i'r llenni. Bu yn gefnogol ac arweiniol dros ben i mi yn bersonol mewn nifer o drafodaethau ble daeth nifer o hawliau pwysig i berchenogaeth y gymdeithas. Diolch Bryn am dy ymroddiad, dy gwmni a'r hwyl. Mae ein cydymdeimlad yn fawr a diffuant efo Dilys a'r teulu i gyd ar golli un mor ddifyr a hwyliog.



Gwniedyn dau bwys a hanner John Fraser.

Gwobrau amaethyddol i Benisarwaun.



Defaid y Winllan.

Hyd yma dyma un o'r tymhorau mwyaf llwyddianus i griw sioe y Winllan, sef Eifion Harding a'i ferch, Cenin. Mae'r faharen 3 oed bellach yn bencampwr brid (Defaid Penfrith Bryniau Cymru) mewn 4 sioe yn olynol gan ddechrau efo buddugoliaeth yn y Sioe Frenhinol. Yn dilyn trechu 60 arall yn y fan honno mae wedi dod i'r brig yn Eglwysbach, Sir Fôn a Llanrwst gan wneud y rhestr fer am y brif bencampwriaeth mewn dwy o'r uchod. Yn ogystal mae rhai o'r Rough Fell's, brid pur brin yn y rhanbarthau hyn wedi cael llwyddiant yn yr adrannau unrhyw frid arall gyda'r hesbin flwydd yn dod i'r brig yn weddol reolaidd.

Dyma y pumed tro mewn 16 mlynedd i brif bencampwriaeth y brid yn y Sioe Frenhinol gael ei ddyfarnu i eiddo'r Winllan sydd ynddo'i hun yn gryn glod o gofio mai diadell fechan o 25 o ddefaid magu sydd i'w dewis ohonynt. Mae Eifion a'i ferch Cenin yn cyfaddef fod elfen gryf o lwc tu ol i'r llwyddiant ond yn cysuro'u hunain wrth

feddwl eu bod yn gwneud tîm da yn nhermau bod â llygad i weld potensial mewn anifail.

Mae pedair o ddiadelloedd pur yn y Winllan ar hyn o bryd, gyda'r Herdwick a'r White Face Woodland yn sefydlu eu hunain cyn ymuno â'r gylchdaith arddangos maes o law.

Heffar y Perthi.

Mae Michael Jones yn hen gyfarwydd ac ennill gwobrau mewn gwahanol sioeau amaeth, ond erbyn hyn yn canolbwyntio ar feirniadu. Mae dros chwarter canrif wedi mynd heibio ers ei fuddugoliaeth gyntaf gyda tharw yn y Sioe Frenhinol.

Eleni, rhoes gynnig unwaith yn rhagor yn Sioe Mon gyda heffar 23 mis o'r enw Non, ac unwaith eto, enillodd Bencampwriaeth y Gwartheg Duon Cymreig. Mae'r hen elfen gystadleuol yn dal yna! Diddorol nodi fod Y Winllan a Perthi yn ffinio. Pryd tybed y cafwyd dwy bencampwriaeth mewn dwy fferm yn ffinio gyda dau anifail gwahanol?

Chwaraeon



Aeth y gystadleuaeth yn ei blaen yn rhwydd eto eleni gyda'r dan 9 yng nghofal CPD Llanrug, a dan 11 draw ar Gae'r Ddôl, Llanberis dan ofal clwb ieuencid Llanberis. Daeth y torfeydd, paratowyd y lluniaeth a rhoddodd y plant ddwy noson gyffrous o bêl-droed i ni. Oherwydd fy llawdriniaeth diweddar, nid oedd fy nghyfraniad cymaint eleni ond gwyddwn fod y trefniadau mewn dwylo profiadol a saff ymysg aelodau y ddau glwb oedd yn ymestyn gwahoddiad. Diolch i chwi i gyd, a braf clywed fod y ddau glwb wedi elwa yn ariannol o ddarparu y lluniaeth a'r raffl.

Y timau dan 9 i ddechrau. Diolch i Ysgol Gynradd Llanrug am ganiatad i fenthyg y cae. Denwyd 6 tîm i'r ymrafael eleni – Bethel, Llanberis, Waunfawr, Deiniolen a thimau merched a bechgyn Llewod Llanrug. Y drefn oedd bod pob tîm yn chwarae eu gilydd gyda'r ddau dîm ar y brig yn cyfarfod yn y ffeinal. Roedd 3 tîm yn mynd ben-ben ond wedi'r gemau roedd Deiniolen trwodd. Rhaid oedd cael gêm ychwanegol rhwng Bethel a Llewod Llanrug gan fod eu pwyntiau a gwahaniaeth goliau yn gyfartal. Chwip o gêm, ond Llanrug (B) yn ennill. Wel, cafwyd gêm a hanner yn y ffeinal. Roedd y dorf yn llawn llais. I ble'r â'r tlws? I'r topia, neu aros ar lawr y dyffryn? Son am gyfleuon, cynnigion, arbedion, ond ar ddiwedd yr amser penodol 1-1 oedd hi. Penderfynwyd ar giciau o'r smotyn. Trueni nad oedd y camerau yno. Son am densiwn. Son am bwysau. Ond ar y diwedd Llanrug aeth a hi o 6-5, a'r ddau dîm yn llongyfarch ei gilydd ar ol noson wych o bel-droed lleol, di-drafferth.

Yna'r dan 11. Eto, 6 tîm ddaeth i ymgiprys. Tri thim o Lewod Llanrug, un o glwb Llanrug, a Bethel a'r Waunfawr. Yr un drefn â'r dan 9. Wedi pawb chwarae ei gilydd roedd tîm clwb Llanrug trwodd gyda 11 pwynt.

TLWS YR ECO 2015



Roedd Bethel a Llewod Llanrug A ill dau ar 10 pwynt ond Bethel yn mynd trwodd gyda gwahaniaeth goliau +5 yn erbyn +4 Llanrug. Wel roedd tipyn o ffeinal o'n blaenau. Roedd tîm Llanrug yn bencampwyr Cynghrair Gwryfai dan 10 ac wedi bod yn llwyddianus mewn sawl cystadleuaeth. Roedd aelodau tîm Bethel flwyddyn yn hŷn, ond nid wedi tanio yn y gemau cynnar. Chawsom ni ddim ein siomi. Roedd dau gôl-geidwad da, nid yn unig yn arbed ond yn defnyddio y bêl yn dda o'r cefn. Mae digon o le ar Faes y Ddôl a gwelsom basio celfydd a defnydd effeithiol o ofod. Da iawn hyfforddwyr. Un gôl setlodd hi- a honno'n gôl hen drefn. Cefnw'r Bethel Rhys Hughes – seren y gêm – yn symud i fyny fel hen 'centre half' ac yn plannu peniad o gic gornel. Pum munud i fynd, a Llanrug yn pwyso ond methu taro'r targed. Diolch i hyfforddwr Waunfawr, a Cyd-lynnnydd Academi CPD Caernarfon, Hywel Williams am gyflwyno'r tlws a medalau. Rwy'n siwr ei fod wedi gweld rhai y gellir eu denu draw i'r Oval. Ymlaen at flwyddyn nesaf felly. Diolch i'r plant fwy na dim.



RÂS GWŶYL BETHEL



Am y drydedd flwyddyn yn olynol denwyd dros 60 o redwyr yn ymestyn o 12 oed i’n agos i’r 70 oed i’r ras boblogaidd hon dros 7km. Mae’n tipyn o her. Dechrau o’r Neuadd Goffa yna ar hyd y gwastadedd hyd Ffordd Tre Gôf draw at Gornel Sipsiwns a Gelli Gyffwrdd. I lawr yr allt wedyn i’r Felinheli. Yna’r ddringfa heibio Ysgol Felinheli ac i fynny’r allt heibio Garreg Goch. Fawr o amser i syllu ar ogoniant Eryri o’u blaenau wrth ruthro draw am Benrhos, cyn y darn olaf yn ôl i’r Neuadd Goffa. Roedd ambell i aelod o Redwyr Eryri yn cystadlu ynghyd a rhai o Fôn a chyn belled a Blaenau Ffestiniog. Roedd yn noson ddelfrydol ar gyfer y ras. Noson braf ond gyda tipyn o awel i gefnogi’r rhedwyr. Roedd torf dda o bentrefwyr hefyd wedi troi allan i gefnogi. Roedd pedwar categori sef Dynion, Merched a’r gorau o’r Bechgyn a Genethod.

Ennillydd râs y dynion mewn amser o 22m 47e oedd Jim Bacon (Llanberis). Yn ail roedd Rhys Cross (Bethesda) ac yn drydydd Tom Webb (Llanberis). Ennillydd râs y marchod oedd Sally Hoyle o Borthaethwy, myfyriwr ym Mhrifysgol Bangor. Aeth Tlws y Bechgyn i Deion Williams (Llanrug) mewn amser o 27m 40e gyda Cai Jones (Rhiwlas) yn ail. Yr eneth gyntaf adref oedd Georgia Parkinson (Caernarfon) ac yn ail iddi ei hefail, Abbi. Roedd nifer o bentrefwyr hefyd yn cystadlu a llwyddodd pob un i orffen y cwrs. Noson lwyddianus iawn ac ategwyd £500 at goffrau’r Wyl. Hoffai Sion Jones a’i bwyllgor gweithgar ddiolch i bawb am eu cefnogaeth. Diolch i Gwynfor a Dewi Jones hefyd am groniclo’r achlysur drwy lygaid y lens.

DECHREUAD DIGON SIMSAN



Do, fe ddaeth y bêl-droed yn ei hôl. A fu cyn gymaint o edrych ‘mlaen at dymor. Ar lefel genedlaethol mae Cymru o fewn cyraedd rowndiau terfynnol Pencampwriaeth Ewrop. Erbyn mis nesaf gobeithiaf allu cyhoeddi llwyddiant os ceir canlyniadau ffafriol draw yng Nghyprus a gartref i Israel. Gan obeithio na fydd anafiadau yn amharu ar y rhediad rhyfeddol. Draw ar y Liberty mae’r Elyrch wedi dechrau hedfan o’r cychwyn. Pwynt rhyfeddol yn Chelsea a chwalu Newcastle. Nifer o sylwebyddion yn proffwydo y bydd nifer o glybiau yn targedu Garry Monk fel rheolwr. Mae ei ddull o chwarae yn ddi-gyfnawid, ac yn dwyn ffrwyth. Mae ganddo’r gallu hefyd i arwyddo chwaraewyr ifanc yn ‘gymharol’ rhâd, ac yna’n eu troi’n chwaraewyr cyfforddus ar y lefel uchaf. Ai dyma’r tymor i Wrecsam? Eto, gyda rheolwr newydd, dull ymosodol o chwarae a torfeydd agos i 5 000 ar y Cae Ras. Rhoddodd glybiau Uwch Gynghrair Cymru ganlyniadau da yn Ewrop gyda’r Bala a’r Seintiau Newydd yn anffodus i fethu camu ymlaen. Gyda’r ‘llwyddiant’ yma mae’r ddadl am gynghrair yr haf

wedi ail godi. Amser a ddengys. Bu Les Davies yn denu sylw, ac mae rhai yn rhagweld Bangor yn disgyn a Chaernarfon yn cymryd eu lle. Braf i ni fuasai gweld y ddau dîm yn yr Uwch Gynghrair. Ond simsan meddai’r penawd. Wel dyna’r sefyllfa i’n timau lleol. I’r ddau brif dîm mae rheolwyr newydd wrth y llyw. Draw ar Eithin Duon ennill un o’u tair gêm yn unig yw record Llanrug. Colli i Glantraeth a Chyffordd Llandudno. Dwy gêm agos oedd y rhain yn erbyn dau o brif glybiau’r adran. Rwyn siwr y bydd Llanrug yn dringo’r tabl yn fuan. Llongyfarchiadau hefyd am y gwaith da o gwmpas y maes. Pwysig yw edrych ‘mlaen o hyd. Yr un yw record Llanberis. Mae’r Darans wedi colli ambell chwaraewr ac fe fydd angen torchi llewis y tymor yma. Mae yn adran gystadleuol eleni a thimau Môn yn edrych yn gryf. Da gweld fod Waunfawr wedi dechrau chwarae eu gemau. Eto, bu nifer o’u carfan wedi anafu ac anodd oedd cyflawni gemau. Byddent yn falch felly o guro Bae Cemaes yn eiu gêm gyntaf. Mae gaeaf hir o’n blaenau, a byddwn yma i groniclo taith y timau drwy’r tymor.

Apêl Flynyddol

Wedi ein seibiant fer, croeso yn ôl i chwi ddarlllenwyr ffyddlon. Mae llawer ohonnoch yn ymwybodol bod y tudalennau chwaraeon wedi ymestyn yn sylweddol yn ystod y ddwy flynedd diwethaf. Yn sicr, mae’r cynnydd mewn darluniau – yn enwedig mewn lliw – yn gaffaeliad mawr. Y mae’n fwriad gennyf, gyda chefnogaeth llwyr ein golygydd gweithgar, i adlewyrchu yr ystod eang o gampau yn yr ardal bellach. Yn amlwg, ni allwn fod yn ymwybodol o bob gweithgaredd. Apeliaf atoch felly i’n pledu gyda’ch storïau. Truenus yw clywed rhai yn achwyn na chafodd hwn/hon sylw gennym. Gadewch i ni wybod ac fe gewch sylw. Mae eraill wedi cyfeirio bod y Caernarfon and Denbigh fel petai yn ymbellhau oddi wrth newyddion lleol bellach ac yn rhedeg yr un storïau â’r Daily Post. Yr Eco bellach yw’r papur a’i fys ar byls yr ardal yma. Cofiwch fod dros 3000 copi yn cael ei ddosbarthu. Eich papur chi ydi o. Disgwyliaf am eich storïau chwaraeon. Diolch o flaen llaw.

Anya a'i dwy fedal aur.



Yn dilyn y newyddion a gyhoeddwyd yn rhifyn diwethaf yr Eco, gallwn yn awr roi ystyriaeth lawn i lwyddiant Anya ym Mhencampwriaethau Athletau Cymru Dan 13, Dan 17 ac Uwch yn Stadiwm Rhyngwladol Caerdydd.

Yn dilyn ei llwyddiant ym Mhencampwriaethau Trac a Maes Gogledd Cymru yn Nhreborth, Bangor yn hwyr yn mis Mai teithiodd y sbrintiwr lleol Anya Williams, 12oed o Lanrug i Gaerdydd gyda pheth hyder, oherwydd dychwelodd y llynedd gyda dwy fedal efydd. Roedd ei gobeithion yn uwch eleni.

Roedd yn cystadlu yn y rasys 100m a 200m, ond gwasgwyd y rasys rhagbaratoi a'r rasys terfynol i gyd i un prynhawn. Llwyddodd Anya i symud ymlaen i rownd derfynol y ras 100m gan ennill ei ras ragbaratoi yn gyfforddus mewn amser o 14.09 eiliad. Fodd bynnag, cafodd y rownd derfynol ei rhedeg ar gyflymder chwm iawn, gydag Anya yn gorfod brwydro'r holl ffordd i'r llinell

derfyn er mwyn hawlio'r teitl. Ac enillodd ei Phencampwriaeth Cenedlaethol cyntaf mewn amser personol gorau erioed, sef 13.74 eiliad.

Prin y cafodd amser i orffwys na mwynhau ei llwyddiant: roedd rasys rhagbaratoi y 200m yn ei haros. Enillodd unwaith yn rhagor, gan symud ymlaen i'r rownd derfynol. Ac fel yn hanes y Ras 100m yn gynharach, ennill fu ei hanes eto, ac unwaith yn rhagor, rheddodd ei hamser personol gorau erioed, sef 28.56 eiliad.

Llwyddiant ysgubol ac aur dwbwl i'r athletwraig ifanc lleol, a hynny'n wobwr haeddiannol am ei hymrwymiad i'r gamp a'r ymarfer caled a chyson gydol misoedd y gaeaf.

Noddir Anya gan Arfon Garage Clwt-y-Bont a London Garage Cyf., Cwm-y-Glo.

Lluniau gyda chaniatad Cymdeithas Athletau Cymru.

TYMOR CYNTAF LLWYDDIANUS

Bu y sylwebwyr a'r wasg wrth eu boddau yn croniclo y tymor criced gyfredol. Doedd neb yn rhagweld y canlyniadau yng nghyfes y Llundw. Bu'r criced yn ymosodol ac yn hollol wahanol i 'arafwch' llif gemau prawf arferol. Bu rhai yn beio safon y lleiniau, eraill dechneg y batwyr. Yn sicr, o ran Lloegr/Cymru bu'r bowllo o safon uchel, daeth ambell fatiwr fel Root i achub sawl sefyllfa, ac roedd safon y maes yn enwedig y daliadau yn rhyfeddol. Mae rhai yn awgrymu fod y dull 50/20 pelawd o griced erbyn hyn yn dylanwadu ar agweddau tuag at y gemau prawf traddodiadol. Eithriad yw sgorio llai na 300 rhediad y dydd erbyn hyn.

Daeth Morgannwg i Fae Colwyn a chwalwyd eu gobeithion am

ddyrchafiad gyda'r ceffylau blaen o Sir Gaerhirfryn yn torri sawl record batio. Yna wedi perfformiadau da yn y gystadleuaeth 50 pelawd, Morgannwg yn colli pob cyfle o lwyddiant trwy golli pwyntiau am lain is-raddol am yr ail dymor yn olynol. Nid beth mae rhywun yn ei ddisgwyl ar faes statws Prawf.

Bu ein clwb mabwysiedig ni, Caernarfon, yn hollol bles a safon y llain yn Nhŷ Newydd. Yno maent yn chwarae eu gemau cartref yng Nghyngair Ganol Wythnos Môn/Arfon. Trwy guro Bangor yn eu gem olaf llwyddodd tim dre gipio'r bencampwriaeth y gynhrai. Mae'r tim yn cynnwys ambell un o Fro'r Eco, ac maent yn estyn croeso i unrhyw aelod newydd ymuno a nhw.

Chwaraeon

Hawl i gystadlu ym Mhencampwriaeth Ddringo'r Byd.

Llongyfarchwyd Kieran Forrest o Lanrug eisoes am ei lwyddiant yn cael ei ddewis i dim Prydain, ond ddiwedd Awst (yn rhy hwyr i ni fedru adrodd yr hanes yn y rhifyn hwn) roedd yn cystadlu ym Mhencampwriaeth Ddringo'r Byd. Enillodd yr hawl hwnnw yn dilyn llwyddiant ym Mhencampwriaethau Ewrop a gynhaliwyd yng Nghaeredin yn gynharach yr haf hwn.

Roedd 15 o wledydd Ewrop yn cystadlu, gyda dros 250 o ddringwyr yn cymryd rhan. Er iddo gystadlu i dim Prydain yn Awstria fis Mai, y gystadlueth hon yng Nghaeredin fyddai'n penderfynu ar ei safon o fewn Ewrop, ac a fyddai'n cael cystadlu ar lefel byd-eang.

Yn dilyn y dringfeydd rhagbaratoawl, roedd Kieran yn safle 21;

ond doedd hynny ddim yn ddigon da iddo. Yna, yn y dringfeydd terfynol, gwnaeth ymdrech arbennig, gan orffen yn y pymthegfed safle, a'r siawns i gystadlu ym Mhencampwriaeth y Byd, oherwydd ei fod ymhlith goreuon Ewrop.

Dros yr wythnosau diwethaf bu'n ymarfer yn galed, ac meddai, "roedd gorffen yn bymthegfed yn Ewrop yn anhygoel, ond rydwi angen gwella, a'r gobaith yw cyrraedd yr wyth uchaf. Dyna fy uchelgais ar hyn o bryd."

Pob llwyddiant iddo i'r dyfodol, ac yn sicr, mae'r arwyddair "I fyny bo'r nod" yn hollol addas!



Ras yr Wyddfa 2015